# Y TINCER

PRIS 60c

Rhif 322

Hydref 2009


PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# Cyfeirlfyr cynhwysfawr o gaeau chwarae Cymru

Mae'r Lolfa wedi cyhoeddi cyfeirlyfr sy'n cynnwys manylion pob cae pêl-droed a rygbi yng Nghymru. Mae The Football and Rugby Playing Fields of Wales gan Richard E Huws, Bont-goch, yn cynnwys gwybodaeth am gaeau chwarae mewn dros 600 o drefi a phentrefi yng Nghymru. Rhoddir sylw a manylion diddorol am gaeau'r Borth, Bow Street, Goginan, Penrhyn-coch a Threfeurig (ym Manc-y-darren).

Ceir yn y gyfrol wybodaeth fanwl am leoliadau'r caeau, hanes eu henwi, hanes y clybiau, maint y torfeydd, digwyddiadau o bwys, gêmau enwog a rhai lluniau. Mae'r gyfrol yn fwynglawdd o ffeithiau diddorol. Er enghraifft, faint o bobl sy'n gwybod i'r Eisteddfod Genedlaethol gael ei chynnal ar faes Cwins Caerfyrddin ac i wirfoddolwyr symud 25,000 tunnell o bridd er mwyn creu cae rygbi yng Nghwm Gwrach. Bydd y gyfrol hon yn sicr o apelio at chwaraewyr a chefnogwyr clybiau pêl-droed a rygbi o bob safon yng Nghymru sydd am wybod mwy am hanes y caeau maent yn chwarae arnynt, yn ogystal ag at haneswyr lleol.

Richard E, Huws *The Football and Rugby Playing Fields of Wales* Y Lolfa, 2009 331t. £8.95






## Tarw y flwyddyn 2009

Dyma enillydd cystadleuaeth Cymdeithas Gwartheg Duon Cymreig - Gwarcwm Max 10fed, tarw 3½ blwydd oed a fagwyd ac a arddangoswyd gan D Huw Jones, Llety Cynnes, Bow Street.



Andrew Gittins a Daniel Basnett - gweler tudalen 5

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 322 | Hydref 2009

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG



**SWYDDOGION**

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**STORI FLAEN** - Alun Jones
Gwyddfor ☎ 828465

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD** - Mrs Llinos Dafis, Cedrwydd, Llandre ☎ 828262

**IS-GADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Paul Bevan, Felin Ddewi, 4 Glan-ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820 583
bevan.paul@gmail.com

**TREFNYDD Y CYFEILLION** - Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER** - Anwen Pierce

**GOHEBYDDION LLEOL**

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH**
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch, ☎ 623660
Alwen Griffiths, Lluest Fach ☎ 880335
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD TACHWEDD 12 a TACHWEDD 13 I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI TACHWEDD 26

SYLWER FOD Y DREFN YN WAHANOL I'R ARFER

**HYDREF 16** Nos Wener Bingo yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch

**HYDREF 16** Nos Wener Cwrdd Diolchgarwch Capel Pen-llwyn. Pregethir gan y Parchg John Gwilym Jones, Caerfyrddin. Croeso i bawb.

**HYDREF 16** Nos Wener Y Parchg Goronwy Evans, Llambed "Cymeriadau a Hiwmor" Cymdeithas Lenyddol y Garn yn festri'r Garn am 7.30

**19 HYDREF** Nos Lun Cyfarfod cangen Rhydypennau o Blaid Cymru yn Neuadd Rhydypennau am 7.30pm yn Neuadd Rhydypennau. Croeso cynnes iawn i aelodau a ffrindiau

**HYDREF 21** Nos Fercher Llion Iwan yn sgwrsio am Gymeriadau nofelau, ffrwyth y ffeithiol a dychmygol.
Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**HYDREF 21-22** Nosweithiau Mercher a Iau Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno 'Tyner yw'r lleuad heno' - drama Meical Povey yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth am 7.30

**HYDREF 22** Nos Iau Parti caws a gwin a gemwaith 'Tlws' yn Rhydyrysgaw, 1 Glan Ceulan Penrhyn-coch o 7.00 ymlaen. Elw at Gronfa Trefeurig, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2010

**HYDREF 23** Nos Wener Disco Calangaeaf Cylch Meithrin Pen-llwyn yn Neuadd y Pentref, o 4 – 6 o'r gloch.Croeso cynnes i bawb.

**HYDREF 23** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau am hanner tymor

**TACHWEDD 3** Dydd Mawrth Ysgolion Ceredigion yn ailagor ar ôl hanner tymor

**TACHWEDD 6** Nos Wener Parti Body Shop yn nhafarn y Rhydypennau o 7.30 ymlaen i godi arian i Gylch Meithrin Rhydypennau. Croeso i bawb.

**TACHWEDD 9** Nos Lun Mair Jenkins Bywyd yn Japan Merched y Wawr Rhydypennau

**TACHWEDD 15** Nos Sul Côr Godre'r Aran yn Eglwys Llanbadarn Fawr am 7.30 Tocyn: £10 Yr elw i Ambiwlans Awyr Cymru.

**TACHWEDD 18** Nos Fercher Cofio BJ yng nghwmni Andrea Parry ac eraill Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**TACHWEDD 19** Nos Wener Bingo yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch

**TACHWEDD 20** Nos Wener Ms Rebecca Williams, Goginan, Cymdeithas Lenyddol y Garn yn festri'r Garn am 7.30

**TACHWEDD 25** - Cyfarfod y Tincer. gweler tudalen 3.

**TACHWEDD 26-27** Dyddiau Iau a Gwener Cwmni Mega yn cyflwyno Barti Ddu yng Nghanolfan y Celfyddyau am 10.00 ac 13.00

**TACHWEDD 28** Dydd Sadwrn Cerdd-danton – canu cerdd dant di-stop o 11.00-17.00 yng nghanol y Sir. I ddilyn Cymanfa gerdd dant/werin; arweinydd: Bethan Bryn. Mynediad i'r gymanfa £3 Mwy o fanylion i ddilyn Trefnir gan Bwyllgor Cerdd Dant Eisteddfod yr Urdd 2010

**RHAGFYR 4** Nos Wener Noson Goffi a Raffl Fawr o 7.00 – 8.00 Adloniant i ddilyn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor

**Y Tincer drwy'r post** - Pris 10 rhifyn - £9 (£19 i wlad y tu allan i Ewrop). Cysylltwch â Haydn Foulkes, 7 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HE. ☎ 01970 828 889

**Y Tincer ar dâp** - Cofiwch fod modd cael Y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Mae pymtheg eisoes yn manteisio ar y cynnig. Os hoffech chi dderbyn copi o'r tâp, cysylltwch â Mrs Vera Lloyd, 7 Maes Ceiro, Bow Street ☎ 828555.

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.


## CLWB CŴL
**Penrhyn-coch**

Ar Agor Llun - Gwener
3.30 - 5.30
£5 y sesiwn . £4 ail blentyn

Bwyd a Diod Iachus yn Gynwysedig
Gofal Plant Cofrestredig

I fwcio cysylltwch â
Nicola Meredith 07972 315392
Neu cipiwch i mewn i'r clwb ar ôl Ysgol

Celf a Chreft, Gemau tu mewn ag allan, Wii a Playstation, Pwll Pelau a mwy!

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer Mis Medi 2009.**

£25 (Rhif 134) Huw a Brenda Williams, Berwyn, Llandre.
£15 (Rhif 41) Meinir Jones, Garn Isaf, Bow Street.
£10 (Rhif 36) Ceris Gruffudd, Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch.
Fe dynnwyd y rhifau gan ein golygydd yn dilyn ymarfer Cantre'r Gwaelod nos Sul y13eg o Fedi 2009.

Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street os ydych am fod yn aelod.

Am restr o Gyfeillion gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf

**Annwyl Olygydd**
Rwyf ar hyn o bryd yn paratoi llyfr sy'n seiliedig ar fy ymwneud â'r Urdd 'Yfi a Mistar Urdd a'r Cwmni Da' gyda'r prif ffocws ar gofnodi stori ymgyrch Mistar Urdd. Cyhoeddir y gyfrol yn ystod mis Ebrill 2010, mewn da bryd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion a gynhelir y flwyddyn nesaf yn Llanerchaeron.

Byddwn yn gwerthfawrogi derbyn unrhyw luniau sydd ar gael yn ymwneud ag ymgyrch Mistar Urdd gyda'r posibilrwydd o'u defnyddio yn y gyfrol. Mae deunydd sy'n perthyn i'r cyfnod o 1976 i 1980 o ddiddordeb arbennig ond gall lluniau mwy diweddar hefyd fod yn ddefnyddiol. Byddai disgrifiad byr o'r lluniau yn gymorth.

Mae angen i'r lluniau gyrraedd y cyhoeddwyr cyn mis Rhagfyr 2009 naill ar ebost ylolfa@ylolfa.com neu drwy'r post at: Y Golygydd, Y Lolfa, Tal-y-bont, Ceredigion SY24 5HE.

Diolch ymlaen llaw.
Hwyl

Wynne Melville Jones
Llanfihangel Genau'r-glyn

ytincer@googlemail.com

Trwy gyfrwng eich cyhoeddiad, hoffwn dynnu sylw bob dioddefydd sydd â Chlefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD) neu sydd â phroblemau gyda'i ysgyfaint at y wybodaeth isod. Gall pobl o unrhyw oed ddioddef ohonynt, ond gyda chymorth y Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint rydym yn ceisio lobio'r Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Cynulliad i fuddsoddi mwy o arian mewn gwaith ymchwil. Mae'r cynnydd yn araf ond yn amlwg, a bydd mwy a mwy o welliannau i'w gweld yn y blynyddoedd i ddod.

Un datblygiad mawr yw ffurfio Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint yn Abertawe. Y sefydliad hwn a ddechreuodd y grwpiau "Anadlu'n Rhydd", sydd bellach i'w gweld ledled Cymru. Nôd y grwpiau hyn yw darparu cymorth a chyngor angenrheidiol. Sefydlwyd un o'r grwpiau yn Aberystwyth ryw 3 blynedd yn ôl. Rydym yn cwrdd bob trydydd dydd Iau o'r mis yn Neuadd bentref Llanfarian o 1.30pm hyd 3.30pm. Cawn gyfle i drafod sut i wella ansawdd bywydau ein hardal dros baned o de.

Gwahoddir siaradwyr o wahanol feysydd i siarad â ni ac i ddarparu Cyngor a chymorth angenrheidiol i ni.

Rydym yn cofio hefyd am y bobl arbennig hynny sydd gartref ac yn rhoi o'u hamser i wella ansawdd bywydau a chynnig cymorth a dealltwriaeth i ni. Diolch yn fawr.

Mae croeso i chi fynychu ein cyfarfodydd neu os hoffech chi gael mwy o wybodaeth cysylltwch â fi neu David ar 01970 611429.

Yn gywir
G. Thomas

# "OS MÊTS": YMLAEN I 2009 - 10

Cymdeithas yw "OS MÊTS" a sefydlwyd fel menter ieuenctid cydenwadol yng Ngogledd Cceredigion i hyrwyddo gwerthoedd a dealltwriaeth Gristnogol ymhlith pobl ieuainc oedran 11 hyd 18 oed drwy weithgarwch, cymdeithasu a chyfeillgarwch, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol cyntaf ar Fedi'r 9fed 2009 ac adroddwyd am ddatblygiad'r fenter. Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer 2009 - 10.

- Cadeirydd: Y Parchedig John Livingstone
- Is-gadeirydd: Ceri Williams
- Ysgrifennydd: Dewi G Hughes
- Trysorydd: Marianne H Powell

Trefir rhaglen amrywiol ar gyfer Tymor yr Hydref a hyderir y daw ieuenctid y cylch i fwynhau'r gweithgaredd.

## RHAGLEN TYMOR YR HYDREF 2009

| DYDDIAD | GWEITHGAREDD | LLEOLIAD |
|---|---|---|
| MIS HYDREF | | |
| Nos Iau 1af HYDREF | SWPER Y CYNHAEAF | Capel y Garn |
| Nos Iau 22ain HYDREF | HWYL A SBRI [1] | Capel y Garn |
| Prynhawn Dydd Gwener 30ain HYDREF HANNER TYMOR | CANOLFAN LLAIN | Canolfan Llain, Llanarth |
| MIS TACHWEDD | | |
| Nos Lun 2il TACHWEDD | NOSON O DDRAMAU — Cwmni Arad Goch | Neuadd Tal-y-bont |
| Nos Iau 19fed TACHWEDD | HWYL A SBRI [2] | Capel y Garn |
| Nos Fercher 25ain TACHWEDD | PWYLLGOR GWEITHREDOL AC YMGYNGHOROL CYMDEITHAS "OS MÊTS" | Festri Capel y Garn 7 o'r gloch yr hwyr |
| MIS RHAGFYR | | |
| Nos Iau 3ydd RHAGFYR | CERDYN A CHAROL | Neuadd Tal-y-bont |
| Nos Fawrth 15fed RHAGFYR neu Nos Fercher 16eg RHAGFYR | CANU CAROLAU | Cartref Tregerddan ac Afallen Deg |

Am ragor o fanylion cysyllter â Dewi G Hughes, Bodhywel, Bow Street [01970 828026; e-bost - dewighughes@lineone.net]

# Gair oddi wrth y Pwyllgor - Apêl am Bobl

Mae'r Tincer yn bapur bro deniadol ei olwg a bywiog ei gynnwys, does dim dwywaith am hynny. Ond mae hi wedi dod yn amlwg yn ddiweddar bod angen chwystrelliad o egni arno! Mae gyda ni olygydd ymroddedig a gweithgar, ond mae angen pwyllgor egnïol i'w gefnogi.

Oes diddordeb gennych chi mewn ymuno â'r pwyllgor, neu fod yn ddosbarthwr, neu'n ohebydd, neu helpu mewn rhyw ffordd arall? Os felly dewch i'r cyfarfod agored sy'n cael ei gynnal Nos Fercher am 25 Tachwedd, yn festri Noddfa, Bow Street am 7.30

**Apêl am Arian**
Mae angen rhagor o arian arnon ni hefyd, yn ogystal â phobl, i gadw safon uchel y papur a sicrhau ei fod yn cyrraedd yn gyson bob mis. I'r perwyl hwn, rydym yn gwneud apêl arbennig am gyfraniadau ariannol gan ein darllenwyr. Gofynnwn i chi anfon eich rhoddion at drysorydd y Tincer: Paul Bevan,

Byddwn yn gwerthfawrogi eich cyfraniadau'n fawr iawn.

**Os ydy dyfodol y Tincer o ddiddordeb i chi dewch i'r cyfarfod ar nos Fercher, 25 Tachwedd yn festri Noddfa, Bow Street am 7.30.**

# Y BORTH

## Pen blwydd Hapus

Anfonwn ein dymuniadau gorau at Mrs Nancie Birch, Fairview, Y Graig, a ddathlodd ei phen blwydd yn 90 deg oed ar yr 8fed o Hydref.

## Bore Coffi

Cynhaliwyd Bore Coffi er budd yr Apêl Ganser Macmillan yng Nhgaffi "Boulders" ddydd Sadwrn, 26 Medi. Diolchir i Derek, Gwenda a staff "Boulders" ac i'r llu o yfwyr coffi a gefnogodd yr achlysur.

## Clwb yr Henoed

Mwynhaodd Clwb yr Henoed wibdaith fer i Aberdyfi a Phorthmadog ar ddiwrnod braf o derfyn haf, ddydd Iau, 24 Medi. Diolchir i Joy Cook a Graham Taylor a drefnodd y daith.

## Cwrdd Diolchgarwch

Nos Wener, 25ain o Fedi, cynhaliwyd y Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol yng Nghapel y Gerlan o dan ofal y Parchedig Richard Lewis. Y Pregethwr Gwadd oedd y Parchedig Andrew Lenny, Aberystwyth, a ddewisodd yr 8fed adnod allan o Salm 34 fel ei destun, "Profwch, a gwelwch mai da yw'r Arglwydd." Cafwyd pregeth rymus ganddo a hir gofir. Roedd y Capel a'r Festri wedi eu haddurno yn gelfydd gyda gosodiadau tymhorol gan Eurgain Rowlands, a hi hefyd oedd yn gwasanaethu wrth yr organ. Roedd y casgliad o £45 yn mynd tuag at Cymorth Cristnogol. Traddodwyd y Gras gan y Parchedig Wyn Morris i ddod ag oedfa fendithiol i ben. Diweddwyd y noson drwy ymgynnull yn y Festri i fwynhau lluniaeth a chyfle i gymdeithasu'n llawen o gwmpas y byrddau. Margaret Griffiths oedd yn gyfrifol am y paratoadau, a diolchwyd iddi am ei chymorth parod bob amser.

## Sefydliad y Merched

Jo Jones oedd y Cadeirydd pan ddaeth aelodau o SYM Y Borth at ei gilydd unwaith eto yn Neuadd Gymunedol Y Borth, nos Fercher, 2 Medi. Y siaradwr gwadd oedd Patrick Laverty, Tal-y-bont. Ers rhai blynyddoedd yr ydym yn gyfarwydd a gweld Patrick yn hofran dros Y Borth yn ei gleider fach un dyn. Dangosodd Patrick rai o'r lluniau hardd o arfordir a mynyddoedd Gogledd Cymru y mae wedi'u tynnu o'r awyr. Diolchwyd iddo gan Betty Horton.

Bob amser y mae croeso i Jo Davies, Waunfawr, a ddaeth i'r cyfarfod nos Fercher, 16 Medi, i ddangos y grefft o wneud siocledi gartref. Ar ôl i bawb samplo'r canlyniadau blasus, fe ddiolchwyd iddi gan Beris Galliford.

## Marwolaeth

**Mr Thomas Aran Morris MBE**

Yn drist iawn, bu farw Mr Aran Morris, Bel-Air, yn sydyn yn ei gartref, Ddydd Sul, 13 Medi, dim ond pythefnos ar ôl iddo ddathlu ei ben blwydd yn 90 oed.

Gwir fachgen Y Borth oedd Aran Morris, wedi'i eni a'i fagu yn y pentref. Gwasanaethodd yn y Llynges Frenhinol yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ac roedd yn falch iawn o'r llong, H.M. S. Onslaught, yr oedd wedi bod yn aelod o'i chriw drwy gydol dyddiau blin y Confois Arctig i Rwsia: am flynyddoedd wedyn byddai'n cynnal aduniadau blynyddol yn Y Borth, lle byddai'i gyn-gydlongwyr a'i ffrindiau yn y pentref yn dod at ei gilydd i hel atgofion ac i fwynhau cinio blasus a noson gymdeithasol.

Ar ôl y rhyfel, dychwelodd Aran i weithio yn siop lysiau'r teulu a, chyn bo hir, yr oedd yn chwarae rhan amlwg ym mywyd y pentref. Ym 1950 fe ymunodd â Chyngor Plwyf Y Borth, (a ddaeth, yn ddiweddar, yn Gyngor Cymunedol Y Borth), lle roedd i wasanaethu am 45 o flynyddoedd, gan ddod yn Faer Y Borth yn y dyddiau pan oedd gan Y Borth Faer ei hunan. Roedd yn aelod sefydlu a swyddog yn Ngwasanaeth Gwylwyr y Glannau yn Y Borth, a hefyd, ym 1966, yn aelod sefydlu o gangen RNLI Y Borth, lle gwasanaethodd fel Ysgrifennydd Anrhydeddus ac, yn ddiweddar, fel Is-Lywydd. Hyd at y diwedd, fe ddaliodd i fod yn weithgar ym mhopeth oedd yn mynd ymlaen yn yr ardal. Bob Dydd Sul Y Coffa yn Eglwys Sant Mathew, Aran a fyddai'n darllen enwau y rhai a gwympodd yn rhyfeloedd y byd.. Dim ond dwy flynedd yn ôl, fe ddaeth yn aelod sefydlu a Llywydd cangen newydd Y Lleng Brydeinig yn Y Borth. Ymunodd, hefyd, a Chymdeithas y Seren Bwrma yn Aberystwyth. Yn olffiwr brwd hyd at ei seithdegau, fe ddaliodd i ymddiddori yng ngweithgareddau Clwb Golff y Borth ac Ynys-las, a gellid ei weld yn cerdded ar hyd y morglawdd bron bob dydd ar ei ffordd i'r Clwb; am flynyddoedd maith, hyd at y diwedd, efe a drefnodd y Twrnamaint Golff blynyddol er budd yr RNLI. Ym 2008, fe'i gwobrwywyd â'r MBE mewn cydnabyddiaeth o'i waith ar gyfer diogelwch ar y môr.

Roedd Eglwys Sant Mathew yn llawn i'r ymylon ar gyfer y Gwasanaeth Angladdol, Ddydd Mawrth, 22 Medi. Talwyd teyrnged i Aran gan deulu a ffrindiau, gan gynnwys Mr Anthony Morris (mab), Mr Stephen Willcox (nai, a ddarllenodd hefyd gerdd gan Lindsay Johnson, wyres Aran),



Eveline Jones, Wennol, a ddathlodd ei phen blwydd yn 90 oed gda'i gweinidog y Parch Wyn Rh. Morris

y Dr. Aeron Davies (Clwb Golff Y Borth), Mr Paul Frost (RNLI Y Borth), Y Parchg. Ddr David Williams (Y Lleng Brydeinig), Y Cyngh. Ray Quant MBE a'r Parchg. Marjorie Hill (ar ran Kay Johnson, merch Aran, a'r teulu).

Cymerwyd rhan yn y Gwasanaeth gan Y Parchg. Cecilia Charles (Ficer Eglwys Sant Mathew), y Parchg. Ralph Willcox (brawd-yng-nghyfraith), Y Parchg. Marjorie Hill (chwaer-yng -nghyfraith) a'r Parchg. Ian Girling (Ficer Eglwys y Drindod Sanctaidd, Aberystwyth). Dilynwyd y Gwasanaeth gan ymlosgiad yn Amlosgfa Aberystwyth.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Eileen, gwraig Aran, ynghyd a'r holl deulu. Bydd colled a hiraeth ar ei ôl, yn y teulu ac ym mhentref y Borth fel ei gilydd.

## 30 Mlynedd 'Nôl

Carnifal Rhydypennau 1978 gyda chriw Maesceiro yn ennill y wobr gyntaf am nodi arafwch y Cyngor ar y gwaith o ledu'r ffordd ym Mhen-y-garn. Deallwn, nawr, fod yna gamgymeriad mawr yng nghynllun y ffordd newydd, camgymeriad a all achosi llifogydd yn rhai o'r tai ar fin y ffordd fawr. Beth tybed fydd thema Maesceiro yng Ngharnifal 1980?
O'r Tincer Hydref 1979



# Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las

### Adran Iau Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las



Ar y 6ed o Fedi bu Daniel Basnett yn westai i dros 37 o aelodau ac ymwelwyr a fu'n cystadlu yn ei ddiwrnod arbennig fel Capten yr Adran Iau. Cynhaliodd Sue Wilson gystadleuaeth i chwaraewyr y Cwrs Ymarfer sydd heb fentro i'r cwrs llawn eto. Enillodd Lisa Ewart i'r marched a Lewis Dunn i'r bechgyn cystadleuaeth bwrw'r bêl bellaf ac enillodd Sion Manley cystadleuaeth y 3 thwll gyda Lisa Ewart yn ail a Ffion Wyn Roberts yn drydedd. Dai awn chi.

Wedi'r curry arferol i'r cystadleuwyr, ffrindiau ac ymwelwyr, cyflwynwyd y gwobrwyon am y prif gystadleuaeth medal gan Mr Rob Galliford, trefnydd yr Adran Iau, fel a ganlyn:

Cystadleuaeth 7 twll
1af Claire Gittins (Llanbadarn)
2il Anwen Morris (Penrhyn-coch)
3ydd Ffion Walther (Penrhyn-coch)

Cystadleuaeth y Merched
1af Bryony James (Llanbadarn) 94:24:70
2il Angharad Basnett (Bont-goch) 91:12:79

Cystadleuaeth i Bechgyn, Tees coch a gwyrdd
1af Ben Slater (Y Borth) — 95:28:67
2il Ben Jones-Hughes (Tal-y-bont) 96:27:60 (9 cefn)
3ydd Tomos Wyn Roberts (Bow Street) 103:34:69

Cystadleuaeth Medal i Bechgyn
1af Jacob Billingsley (Dôl-y-bont) 86:16:70
2il Mathew Lucas (Bow Street) 98:26:72
3ydd Luke Williams (Bow Street) 90:17:73

Sgôr gorau i Ymwelwyr: Sara Rees-Evans, Penrhos
Enillydd y Cystadleuaeth: Andrew Gittins (Llanbadarn) 82:20:62

Agosach i'r Llinell ar y Cyntaf: Mathew Lucas (Bow Street)

Agosach i'r Pin ar y 7fed: Rhodri ap Dafydd

Agosach i'r Pin gyda 2 tro ar y 18fed — Andrew Gittins

Wrth i dymor Daniel ddod i ben fel Capten manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ar ei ddiwrnod arbennig a hefyd dros y 12 mis diwethaf. Diolchodd Iori Jones, Capten y Clwb, i Daniel am fod yn llysgennad gwych i'r Clwb ac am ei holl waith called yn enwedig ei ymgyrch i godi arian i bobl ifanc â chlefyd y siwgr yn Ysbyty Bron-glais ac ar ei ddyfodiad yn Bencampwr Bechgyn Ceredigion.

### Canlyniadau

Medal misol Medi
1af Jacob Billingsley (Dôl-y-bont) 81:16:65
2il Tyler Roberts (Rhydyfelin) 102:36:66
3ydd Ben Slater (Y Borth) 100:32:68
Gross gorau: Zach Galliford (Y Borth) 70

Medal misol Hydref
1af Steffan Clifton (Bow Street) 106:45:61
2il Gwenno Morris (Penrhyn-coch) 101:32:69
3ydd Tomos Wyn Roberts (Bow Street) 102:32:70
Gross gorau: Zach Galliford (Y Borth)

21 Mehefin — cystadleuaeth medal
1af Sion Ewart (Bow Street) 109:39:70
2il Rhodri ap Dafydd (Goginan) 86:15:71 (9 cefn)
3ydd Iolo ap Dafydd (Goginan) 97:26:71

4 Gorffennaf — cystadleuaeth medal
1af Daniel Basnett (Bont-goch) 76:10:66
2il Zach Galliford (Y Borth) 72:1:71 (9 cefn)
3ydd Ben Slater (Y Borth) 101:30:71

12 Gorffennaf — cystadleuaeth medal
1af Aaron Bull (Capel Bangor) 100:36:64
2il Ben Slater (Y Borth) 99:30:69
3ydd Zach Galliford (Y Borth) 75:2:73

26 Gorffennaf — cystadleuaeth Bogey
1af Alex Watt (Machynlleth) -2
2il Gethin Morgan (Capel Seion) -5
3ydd Angharad Basnett (Bont-goch) -6

29 Gorffennaf — cystadleuaeth medal
1af Sion Ewart (Bow Street) 99:36:69
2il Ioan Lewis (Bow Street) 83:17:66
3ydd Ben Jones-Hughes (Tal-y-bont) 100:30:70

4 Awst — cystadleuaeth Stableford
1af Aaron Bull (Capel Bangor) 39 pwynt
2il Chris James (Clarach) 37 pwynt
3ydd Ioan Lewis (Bow Street) 36 pwynt

7 Awst — cystadleuaeth medal
1af Luke Williams (Bow Street) 85:18:67
2il Andrew Gittins (Llanbadarn Fawr) 89:20:69 (9 cefn)
3ydd Ben Jones-Hughes (Tal-y-bont) 99:30:69

11 Awst — cystadleuaeth Bogey
1af Ioan Lewis (Bow Street ) +2
2il Sion Clifton (Bow Street) +1
3ydd Alex Watt (Machynlleth) Cydradd

18 Awst — cystadleuaeth medal
1af Sion Ewart (Bow Street) 98:30:68
2il Daniel Basnett (Bont-goch) 74:8:66
3ydd Gethin Morgan (Capel Seion) 95:27:68

30 Awst — cystadleuaeth medal
1af Ben Jones-Hughes (Tal-y-bont) 97:29:69 (9 cefn)
2il Sion Clifton (Bow Street) 98:30:68
3ydd Zach Galliford (Y Borth) 70:1:69

## DÔL-Y-BONT

### Cyfarfod Diolchgarwch

Cynhelir Cyfarfod Diolchgarwch Capel y Babell pnawn Sul, 25 Hydref am 2 o'r gloch.
Pregethir gan ein Gweinidog, Y Parchedig Wyn Rhys Morris.
Croeso cynnes i bawb.

## DOLAU

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad i deulu Bryngwyn Isaf ar farwolaeth mam Ann yn ddiweddar.

### Gwellhad buan

Gwellhad buan i Mrs Nest Davies, Nantgwyn, sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Pennal View, Blaenpennal, yn cryfhau ar ôl anffawd yn y tŷ.

# MADOG

### Suliau Tachwedd

Madog 2.00

1 Rhodri Glyn
8 Tudor Davies
15 Bugail
22 Andrew Lenny
29 HywelSlaymaker

### Pen blwydd arbennig

Pen blwydd hapus i Huw Jenkins, Banc y Darren, a ddathlodd ei ben bllwydd yn 80 oed yn diweddar.

### Aelodau newydd

Ar 20 o Fedi derbyniwyd pump o bobl ieuainc yn aelodau yng Nghapel Madog mewn gwasanaeth o dan ofal y bugail, y Parchg Wyn Rh. Morris — Mared Hughes, Rheinallt a Llŷr Jones, Gwen a Gwilym Sims-Williams.

Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

JONES JET WASH
Golchi Arbenigol
• Peintio Shediau a lloriau
• Golchi Tai a Shediau fferm (toeon, gwteru, fasias, tai gwydr a.y.yb)
•Golchi palmentydd a hewlydd
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

# LLANDRE

### Priodas Arian

Llongyfarchiadau i Brian ac Iris Evans, Annedd Wen, a ddathlodd eu priodas arian ym mis Awst.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Bell, Glannant, ar enedigaeth eu merch, Lila Seren.

### Cyfarfod Treftadaeth Llandre

Ar Hydref 29 bydd Lyn Ebenezer yn sôn am "Operation Julie 1970 — troseddu rhyngwladol yn cyrraedd cefn gwlad Ceredigion". Cynhelir y cyfarfod yn Ysgoldy Bethlehem, am 7.30 o'r gloch. Croeso i bawb.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Les Breese, Dolwyn, a dreuliodd gyfnod yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.

### Noson Agoriadol Merched y Wawr Genau'r-glyn

Cafwyd noson agoriadol i'w chofio yn Ysgoldy Bethlehem Llandre ar nos Lun Medi 21ain. Daeth nifer dda o'r aelodau ynghyd i wrando ar ein gwesteion ifanc Eilir a Meleri Pryse. Cyflwynwyd nhw gan Nansi Hayes ein Llywydd a bu'n sôn am eu doniau amrywiol, offerynnau pres a llinynnol, adrodd i gyfeiliant, adrodd digri a hyd yn oed karate. Daethant a'u hyfforddwraig Mrs Mair Lewis i gyflwyno'r eitemau yn ei ffordd arbennig o gartrefol ei hun. Roedd Eilir a Meleri yn lwcus iawn o Mam i gyfeilio. Wrth wrando ar Eilir yn adrodd gellid yn hawdd meddwl mai llais ei dat-cu Y Parchg Elwyn Pryse a glywsem - mor debyg oedd y ddau. Bu tipyn o gymdeithasu dros baned a byrbryd a phawb yn gytûn i ni gael noson hyfryd. Diolch i'r brawd a chwaer dawnus.

Byddwn yn cwrdd nesa ar nos Lun Hydref 19eg pan ddaw'r Parchedigion Wyn a Judith Morris atom. Croeso cynnes.

### Margaret Ann Davies (Nanno) Dolymeillion (1926-2009)

Yn gynnar ar fore Sul yr 20fed o Orffennaf bu farw Nanno yn Ysbyty Bronglais ar ôl cystudd a barodd am flwyddyn. Roedd hyn ychydig oriau wedi ei merch Nia a dwy wyres gyrraedd o Efrog Newydd.

Mae tystiolaeth teyrngedau yn unfarn fod Nanno yn ddynes arbennig - ee 'yr addfwynaf a'r fwyaf cyfeillgar o wragedd'. Roedd ei gwen groesawgar a brwdfrydedd byrlymus yn goleuo unrhyw stafell ac yn ennyn cyfeillgarwch ar unwaith.

Fe'i ganwyd yn Llanymddyfri a threuliodd y blynyddoedd cynnar ar fferm y teulu, Pwllagddu, Llanwrda. Mynychodd Ysgol Gynradd Llanwrda ac aeth ymlaen i Ysgol Ramadeg Llanymddyfri ac yna i Adran Laeth Coleg Aberystwyth. Cafodd swydd gyda'r Gwasanaeth Profi Llaeth, a bu am gyfnod yn Hwlffordd cyn dychwelyd i Aberystwyth. Yn 1948 priododd Ellis Davies o'r ardal enedigol a buont fyw yn y dre am saith mlynedd cyn symud i Ddolymeillion, Llandre, ym 1955 a dathlu priodas ddiemwnt ym 2008.

Cynhaliwyd yr angladd ar y 23ain o Orffennaf yn Eglwys San Mihangel, Llandre, lle ymgasglodd llond yr Eglwys i dalu'r gymwynas olaf. Yr Hybarch Hywel Jones oedd yng ngofal y gwasanaeth a'r deyrnged, gyda'r Parchg Maldwyn Griffiths yn cynorthwyo. Nia Demiray a wnaeth y darlleniad o Salm 121, a'r Dr Tudor Jenkins oedd wrth yr organ.

Wrth draethu'r Deyrnged dywedodd fod gan Nanno ddoniau tra arbenigol ac roedd rhaid anelu at berffeithrwydd bob amser. Roedd hyn yn dechrau gydag ymddygiad personol a gwisgo yn daclus a ffasiynol. Yn gogyddes o radd flaenaf câi foddhad mawr wrth arlwyo gwledd i'w ffrindiau neu bartïon a'i charedigrwydd a haelioni naturiol yn sicrhau mwynhad i bawb. Bu hefyd yn cynnal dosbarthiadau coginio i wahanol sefydliadau.

Fe ddefnyddiodd ei medrau artistig i arlunio, i addurno cacennau priodas ac achlysuron eraill, a threfnu blodau.

Yn ogystal â hyn bu Nanno yn cymryd rhan flaenllaw mewn mudiadau cymunedol yn yr ardal. Bu yn weithgar am lawer blwyddyn yn yr RNLI Aberystwyth yn dal swyddi o ysgrifennydd i fyny i lywydd. Roedd yn aelod o SYM Genau'r-glyn ac yn llywydd ddwywaith. Hefyd yn llywydd ar Gymdeithas Trefnu blodau lleol ac yn cyfrannu yn helaeth at wyliau blodau yn Eglwysi Llanbadarn, San Mihangel Aberystwyth a Llandre. Roedd yn aelod selog yn yr Eglwys ac yn drefnydd addurno'r Eglwys, cyngherddau ac ambell Ffair Haf. Cafwyd teyrngedau hyderus a gwresog gan dair o'r wyresau sef Tania a Lisa Demiray ac Emma Davies.

Yr archgludwyr oedd Dafydd, Simon a Dylan Raw-Rees, Rheinallt Richards, Nigel Lewis a Kevin Lloyd.

### Pen blwydd Arbennig

Pen blwydd hapus i Christine Millichamp, Cae'r Arglwyddes, Lôn Glanfraed ar ddathlu ei phen blwydd yn 50. Hefyd pob lwc yn ei swydd newydd yn Abergwaun.

### Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn

Mae Calendr 2010 yr eglwys ar werth. Os hoffech gopi cysylltwch â:
Betty Williams 828335
Avril Thomas 820798
Doreen Haggar 820314.



Rhai o swyddogion *y Tincer* gyda chynrhychiolwyr o bapurau bro eraill Ceredigion a gyfarfu yn Noddfa, Bow Street yn ddiweddar

# ABER-FFRWD A CWMRHEIDOL




Aelodau Urdd y Benywod ar eu taith o amgylch y Coleg o dan arweiniad Carol Marshall.

### I'r Coleg

Dymuniadau gorau i Ellie Doidge, Caegynon, yn y Coleg yng Nghaerdydd ac i Morwenna Jeffries, Tŷ Llwyd Isaf, yn y Brifysgol ym Mangor.

### Lawnsio Llyfr

Ar brynhawn Sul eithaf glawog ym mis Gorffennaf croesawyd nifer o bobl yr ardal a gwahoddedigion i Gellifach i lawnsio llyfr diweddaraf Peter Lord, sef *The Meaning of Pictures*. Mae Peter yn arbenigwr ar hanes celf ac mae hyn i'w weld yn glir yn y llyfr diweddaraf yma. Cafwyd croeso arbennig iawn gan Peter, Olwen a Ioan a chafwyd cyfle i weld a darllen am y lluniau sydd yn y llyfr.




### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Paul a Norma Stephens, Blaenddol, ar enedigaeth eu wyr bach cyntaf, ychwanegiad bach hapus iawn at y dair wyres.

### Cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd cwrdd Diolchgarwch Capel Llwyn-y-groes ar y nos Iau olaf ym mis Medi a braf oedd gweld y lle yn llawn. Ein pregethwr gwadd oedd Y Parchg Irfon Evans a chafwyd orig hyfryd yn ei gwmni. Cafwyd gair o groeso gan Elizabeth Lewis a diolchodd yn arbennig i Delyth Davies, Maencrannog, am wasanaethu wrth yr organ. 'Roedd y Capel eleni eto wedi ei lanhau a'i addurno yn arbennig. Diolch i bawb am roi o'u hamser i gefnogi yr achos yma yng Nghwmrheidol eleni eto.

### Prosiect Plwm

Dydd Sadwrn Medi 9fed cynhaliwyd diwrnod o hel atgofion yng Nghanolfan Croeso Statkraft. Trefnwyd y diwrnod gan Alice Briggs, Tŷ Capel Aber-ffrwd a Shelagh Hourahane o Creuad ynghyd a aelodau o Bwyllgor Urdd y Benywod. Bu Noragh Jones, Troedrhiwsebon, yn siarad am hanes y Cwm ac am y ffordd mae y trigolion wedi addasu eu bywydau gyda dyfodiad y Pwerdy. Bu Michael Freeman o Amgueddfa Ceredigion yn casglu gwybodaeth ac yn ei ddidoli. Bu nifer o drigolion sydd wedi treulio y rhan fwyaf o'u hoes yn yr ardal hefyd yn sgwrsio ac yn hel atgofion gyda Alison. Y gobaith yw y bydd y diwrnod yma yn arwain at nifer o weithgareddau tebyg yn y dyfodol.

# CYNGOR CYMUNED TIRYMYNACH

Cyfarfu y Cyngor uchod ar nos Iau 24 Medi yn Neuadd Rhydypennau o dan gadeiryddiaeth y Cyng Owain Morgan. Croesawyd y Cyng Rob Pugh fel aelod newydd i'w gyfarfod cyntaf. Roedd y Cynghorydd Sir Paul Hinge hefyd yn bresennol.

Mae problem y garthffosiaeth yn ardal Bow Street yn cynyddu'n gyflym. Nid yn unig y mae'n rhwystro datblygiad pellaf o anheddau, ond mae'r gorlifiant sy'n ymddangos o dro i dro yn llygru afon Clarach a'r caeau ar y rhan ddeheuol o'r pentref. Dywedwyd yn y cyfarfod fod ôl llygod mawr yn amlwg yn un o gaeau IBERS (Gogerddan), a'u bod yn cartrefu yn seidin y rheilffordd ac yn gweithio eu ffordd i fyny'r brif biben garthion. Gall hyn olygu bod y pentref mewn perygl o wynebu heintiau yn y dyfodol oni chymer yr awdurdod gamau pendant ar fyrder. Mae'r Cynghorydd Hinge eisioes wedi galw sylw Asiantaeth yr Amgylchedd at y sefyllfa a'r ateb tila a gafodd oedd "They have a problem" — sef Dŵr Cymru. Petae ffermwr wedi llygru'r afon gyda'r peth lleiaf, mi fyddai o flaen ei well cyn caniad y ceiliog! Mae'r sefyllfa druenus hon fel Bom sy'n disgwyl tanio unrhyw funud, ond gallwn sicrhau y cyhoedd y bod y Cynghorydd Hinge a'r Cyngor hwn yn gwasgu yn galed ar yr Awdurdodau am atebion synhwyrol a chanlyniadau boddhaol.

Yn ei adroddiad misol diolchodd y Cynghorydd Hinge i bawb a gynorthwyodd gyda'r holiadur a'r arolwg ar drafnidiaeth droed ar Ffordd Clarach a'r cyffiniau yn ddiweddar. Araf iawn, meddai, yw'r datblygiadau i gwblhau mabwysiadu ystad Maesafallen, gyda nifer o gymhlethdodau yn codi eu pennau o hyd. Adroddodd hefyd na fydd adeiladu ar Clos Corwen, Llangorwen, a bod problem y garffosiaeth ym Mryncastell yn foddhaol ar hyn o bryd. Tirymynach fydd yr ardal olaf y diffoddir y goleuadau gan Geredigion (meant yn mynd yn nhrefn yr wyddor). Ynglŷn â pharcio yn Nhregerddan, yn dilyn cyfarfod gan Gyngor Ceredigion, gobeithir datblygu rhan orllewinol o'r Cartref — sydd yn dir segur — i fod yn ardal barcio.

Cynllunio. Dau gais wedi eu caniatau gan yr Adran Gynllunio: 1 Codi annedd yn lle'r un presennol yn Rhydhir Isaf, Bow Street; 2 Mynedfa newydd yn Yr Ydlan (Dryslwyn gynt), Blaenddol, Bow Street. Cais newydd. Ni wrthwynebwyd cais am adnewyddu ac ymestyn dormers blaen yn 106 Bryncastell, Bow Street.

Rhoddir gwahoddiad i Digby Bevan, Hwylusydd Tai Gwledig Ceredigion i annerch y Cyngor yn y cyfarfod nesaf, neu pan fydd yn gyfleus ganddo.

Nid yw Cyngor Ceredigion yn gyfrifol bellach am y meinciau a oedd unwaith yn eiddo iddynt yn y gymuned, felly bydd y Cyngor yma yn ymgymryd â thrwsio a phaentio yr oll o'r meinciau yn y dyfodol. Talwyd bil hanner blwyddyn rhent toiledau y neuadd, sef £578.50. Bydd y cyfarfod nesaf ar 29 Hydref.

Y TINCER
CYSYLLTWCH Â NI
ytincer@googlemail.com

Gwasanaeth CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com



DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes
Ffôn 880650
Tafarn y Flwyddyn CAMRA 2008
Cinio Sul a ddyfarnwyd y gorau ym Mhrydain

# BOW STREET

## Suliau Tachwedd

Capel y Garn
http://www.capelygarn.org/

1 Steffan Jones Rhodri Glyn
8 T.J. Irfon Evans Bugail
15 Bugail
22 Andrew Lenny
29 Hywel Slaymaker

Noddfa
1 Oedfa am 2.00. Gweinidog.
8 Oedfa am 2.00. Y Parchg. Judith Morris.
15 Oedfa am 10.00. Mr Huw Roderick.
22 Oedfa am 2.00. Gweinidog. Cymundeb.
29 Oedfa am 10.00. Mr Hywel Slaymaker.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchioadau i Mair Lewis, Brynawel, ar ennill cwpanau am y pwyntiau uchaf yn yr adrannau coginio yn Sioe Rhydypennau a Sioe Llanbadarn Fawr yn ddiweddar.

## Priodi

Llongyfarchiadau mawr i Ann Evans, 39 Maes Ceiro, (Caergywydd gynt) ac Ian Elias ar eu priodas yn Efrog Newydd ar y 4ydd o Fedi a phob dymuniad da iddynt wrth iddynt ymgartrefu yn Llanrhystud.

## Cartref Newydd

Pob dymuniad da i Meinir Evans, 43 Maes Afallen, wrth iddi fentro i fyd y perchnogion tai ac ymgartrefu yn 22 Heol Isfoel, Llanrhystud.

## Te yn yr Ardd

Prynhawn Sadwrn, Gorffennaf 25in, cynhaliwyd "Te yn yr Ardd" ym Mhantyperan, Llandre, trwy garedigrwydd Mr a Mrs Tom Hughes a`r teulu a Grŵp Help Llaw Capel y Garn. Roedd yr haul yn gwenu`n braf a chyfeillion wedi dod o bell ac agos i fwynhau`r te a chrwydro`r gerddi. Diolch o galon am y gefnogaeth a`r cyfraniadau hael ac am bob cymorth gyda`r trefnu a`r gweini. Diolch hefyd am nawdd gan Fanc Barclays trwy law Meinir Jones a Gwenan Pnees. Braf iawn oedd cael cwmni Huw Edwards o Lanilar a`i deulu. Cafwyd gair o groeso a diolch gan y Gweinidog, y Parchedig Wyn Rh.Morris, a mynegodd Huw hefyd ei werthfawrogiad a`i ddiolch didwyll. Roedd cyfanswn y rhoddion yn £2,253.26 a chyflwynwyd yr arian i Ffagl Gobaith, Aberystwyth, at sicrhau cadair olwyn drydan arbennig i Huw Edwards.

## Dyweddiad

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Hannah Jenkins, Maes Afallen, merch Non a John Jenkins ar ei dyweddiad â Guto, mab Annes Glyn a Dafydd Roberts, Rhiwlas, ar Hydref 1af.

## Merched Y Wawr, Rhydypennau

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf tymor 2009 - 2010 yn Neuadd Rhydypennau ar Fedi 14eg. Croesawyd pawb gan Gwenda, ein llywydd. Llongyfarchwyd Enid a Beryl ar ddod yn neiniau unwaith eto a dymunwyd gwellhad buan i Vera. Ar ôl gwrando ar yr adroddiad ariannol gan Jean cyflwynwyd y wraig wadd. Roedd Mari Arch wedi dod a rhan fechan o'i chasgliadau i ddangos i ni. Gwelsom rai o lestri'r teulu; cwpanau a soseri; llwyau; platiau; gwiniaduron; cofroddion ac anrhegion. Roedd i bob un ei stori unigol a oedd yn dwyn atgofion am le, person neu achlysur. Gweneth fu'n ddigon lwcus i ennill y raffl. Ar ddiwedd y noson mwynhawyd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan aelodau'r pwyllgor.

Mae croeso i unrhyw un a hoffai ymuno â ni yn Neuadd Rhydypennau ar yr ail nos Lun o bob mis am 7.30 o'r gloch. Cynhelir noson Yoga gyda Sue Jones-Davies ym mis Hydref ac ar Tachwedd 9fed cawn glywed hanes "Bywyd yn Siapan" gan Mair Jenkins.

## Diolch

Diolch i bawb a fu yn y Te Prynhawn yng Nghartref Tregerddan yn ddiweddar. Bydd yr arian a godwyd i gyd yn mynd at les y trigolion.

## Bore Coffi Macmillan

Trefnwyd bore coffi gan yr ysgol Dydd Gwener 25 o Hydref rhwng 8:30 yb ac 11:00. Bu'r disgyblion yn brysur yn paratoi danteithion ar gyfer yr achlysur gyda blwyddyn 5 a 6 yn coginio bisgedi, blwyddyn 3a4 cacennau bach a disgyblion blynyddoedd derbyn 1 a 2 yn paratoi tarten jam a'r Ysgol Feithrin yn paratoi cacennau reis crispies. Cefnogwyd yr ymgyrch gan rieni a phobl lleol a chodwyd swm o £100 tuag at yr ymgyrch. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

## Diolch

Dymuna Rhydian a Megan ddiolch o gallon am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd iddynt, ac i'r criw ddaeth draw, gan yr ardal, ac yn arbennig i Sam, Jamie a Bethan am eu cymorth wrth drefnu'r briodas, yn ogystal â Peter ag Euryl. Gobeithiwn eu gweld y flwyddyn nesaf gydag Aled Jac yn ôl yn Bow St am wyliau.




## Yr Athro Steve Jones yn ymweld â bro ei gyndeidiau

Bore dydd Mawrth Medi'r 8fed ar Radio 4 darlledwyd rhaglen "The house I grew up in" yn olrhain ymweliad yr Athro Steve Jones, y genetegydd byd-enwog, â'r ardal pan ymwelodd â Chapel y Garn, lle bu ei hen- daid y Parch William Morgan yn un o weinidogion cyntaf y Capel, a hefyd Bodhywel lle'r ymgartrefai ei daid a'i nain, Mr a Mrs John Morgan, am gyfnod o ganol pedwardegau hyd at chwedegau'r ganrif ddiwethaf. Cafwyd cyfle iddo gyfarfod a rhai o'i deulu sef Nest Davies o'r Dolau a'r Arglwydd Elystan Morgan ynghyd â Llinos Dafis a Nerys a Dewi Hughes ym Modhywel. Bu'n sôn am ddylanwadau ei deulu arno a hefyd yr amgylchedd gyfoethog lleol a ysbrydolodd iddo feithrin diddordeb ym myd natur ac i ddilyn gyrfa ym maes gwyddoniaeth a geneteg yn benodol. Cofiai am y canu cyfoethog oedd yng Nghapel y Garn a'i swynodd a'i gyfareddu o gofio yr ymhyfryda bellach ym myd yr opera. Bu hefyd yng Nhastell Gwallter a fu'n gyrchfan iddo'n blentyn.

## Arddangos yn yr Ynys Werdd

Yn ystod fis Awst bu Jennifer Hughes, Bodhywel, Bow Street yn arddangos ei gwaith mewn arddangosfeydd a drefnwyd dan adain Gŵyl Gelf Kilkenny sy'n un o Wŷliau pwysicaf o'i bath ym Mhrydain. Yn dilyn ei harddangosfa broffesiynol





**Priodas**

Ar Awst 29ain, cynhaliwyd priodas Rhydian Prys, mab Alun a Louisa Phillips, Maesceiro â Megan Alyssa, merch Peter a Diann Dubois, Cleve, De Awstralia yng nghapel Noddfa, Bow Street. Cafwyd gwasanaeth dwyieithog arbennig gan y Parchg Richard Lewis. Yr organydd oedd Elfyn Lloyd Jones, a chafwyd unawd hyfryd gan Peter Leggett. Roedd yna dri deg pump o ffrindiau a pherthnasau wedi teithio draw o Awstralia. Roeddent wedi dotio ar Gymru er gwaethaf y tywydd.

Mae Mr a Mrs Rh. Phillips wedi dychwelyd i Awstralia gyda'u mab annwyl, Aled Jac.

gyntaf yn Aberystwyth Mae Jenni wedi treulio amser yn Iwerddon yn cydweithio ag artistiaid eraill dan faner yr "Endangered Studios" mewn gweithdy yn Callan ger Kilkenny.

Cynhaliwyd un arddangosfa yn Callan a'r llall yn Kilkenny ei hunan. Er bod y darnau a ddangoswyd yn y ddwy arddangosfa yn wahanol eu harddull roeddynt yn dehongli'r thema "Cnawd v Plastig".

Cafodd arddangosfeydd "Endangered Studios" gymeradwyaeth frwd ac adolygiadau clodwiw a chadarnhaol mewn cylchgronnau a phapurau megis yr *Irish Times*. Dymunir yn dda iddi yn Iwerddon a chyda'i gyrfa.



# BWRDD Y BEIRDD

Osian Jones - Nercwys

'Yn wreiddiol o Bow Street, 'dw i'n byw yn ardal Yr Wyddgrug ers tair blynedd ar ddeg. Am y tair blynedd ar ddeg, 'dw i wedi bod yn gweithio yn Ysgol Plas Coch, Wrecsam, gan ddechrau eleni yno fel pennaeth gweithredol. Mae Bethan a finna'n briod ers 8 mlynedd ac mae gyda ni dri o fechgyn i'n cadw'n brysur — Gruff (4), Ifan (2) a Rhys (1). Mae Gruff yn y dosbarth Derbyn yn ysgol Glanrafon, Ifan newydd gychwyn yn y Cylch Meithrin a Rhys yn edrych ar ôl mam!

Cyfansoddwyd yr englyn yma ar gyfer talwrn y beirdd Cymdeithas Llywarch Hen — cymdeithas lenyddol Adran Gymraeg Prifysgol Bangor — yn 1995. 'Gwyneth' oedd y testun, gyda'r bwriad mae'n siwr fod englynion yn cael eu cyfansoddi am Gwyneth, ysgrifenyddes yr Adran Gymraeg! Gyda mam, sef Gwyneth, wedi marw ond ychydig fisoedd ynghynt, roedd y demtasiwn yn ormod a chyfansoddwyd yr englyn. John Gwilym Jones oedd y meuryn ac fe'i plesiwyd, yn enwedig gan ei fod yn gyfarwydd â mam. 'Dw i'n siwr i'r englyn ddod yn fuddugol mewn cystadleuaeth yn yr Eisteddfod Ryngolegol y flwyddyn honno hefyd a fe'i cyhoeddwyd yng nghefn 'Llafn Golau', cyfrol farddoniaeth gan Dad, Vernon Jones, — y tro cyntaf a'r olaf mae'n siwr y caiff unrhywbeth a ysgrifennais ei gyhoeddi!

Gwyneth (Mam)
Mae chwe llythyren heno — yn y maen
Enw mud wedi'i serio,
Enw er hyn sydd yn gryno,
'Lond tŷ yn canu'n y co'.

Yn dilyn gwasanaeth bedyddio Rhys yn ddiweddar cafwyd cais gan *Papur Fama* i gynnwys yr emyn bedydd ganwyd ar yr achlysur. Fe'i hysgrifennwyd gan Dad ar gyfer cystadleuaeth eisteddfodol yn 2007. Fe'i defnyddiwyd ar achlysur bedyddio Ifan yng nghapel Bethesda y flwyddyn honno a chanwyd hi ar y dôn 'Bugail Israel'.

Wele, Arglwydd, blentyn bychan
Heddiw'n llonni'r allor hen,
Rhannwn ninnau y llawenydd,
Dyro dithau, Iesu, wên.

Dyma'r dŵr a dardd o ffynnon
Yn y graig yn nhir ein bro,
Dŵr sancteiddrwydd gyda gweddi
Fel ar lan Iorddonen, dro.

Ysgafn, ysgafn fo'r ymgroesi
Ar dynerwch talcen syn,
Fel bo'r Ysbryd Glân yn cyffwrdd
Ar ei holl brydferthwch gwyn.

Mager ef ym mreichiau cariad
Sy'n gwresogi'r aelwyd glyd,
Gwres a gynnal ddiniweidrwydd
Cyn wynebu palmant byd.
**Vernon Jones, Bow Street (Dad-cu)**

**Diolch i *Papur Fama* — papur bro ardal yr Wyddgrug — am ganiatâd i ailgyhoeddi yr erthyl hon.**



Ifan, Osian, Bethan, Gruff a Rhys bach

# PENRHYN-COCH

## Suliau Tachwedd

**Horeb**
1 2.30 Oedfa Gymun Gweinidog
8 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
15 2.30 Oedfa bregeth Gweinidog
22 10.30 Clwb Sul bach ac oedfa bregeth Gweinidog
29 10.30 Oedfa bregeth Gweinidog

**Salem**
Hydref 18 2.00 J. Tudno Williams Cymundeb
Tachwedd
1 10.00 Gweinidog
15 2.00 Huw Roderick Cymundeb
29 10.00 Gweinidog

## Clwb Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 28 Hydref, 11 a 25 Tachwedd. Cysylltwch â Egryn Evans, 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â theulu y diweddar Martin Morgan, 36 Glanceulan a fu farw mor sydyn ar 20fed o Fedi ac yntau dim ond yn 48 mlwydd oed.

Cydymdeimlwn hefyd â Henry a Glenys a theulu Cwmfelin a Gwyn Thomas, Maes Seilo ar golli cyfnither hefyd Eleanor a Selwyn ar golli modryb sef Sadie Pugh, Comins-coch. Hefyd ein cydymdeimlad â theulu y diweddar W. E. Morgan, 106 Ger-y-llan.

## Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

Cyhoeddodd Mairwen Jones, Ysgrifennydd Eisteddfod Penrhyn-coch y cynhelir gŵyl 2010 ar Ebrill 23-24. Y beirniaid fydd Steffan Prys Roberts, Aberystwyth ( Cerdd nos Wener) a Heledd Hughes (Llefaru nos Wener).

Daw Steffan o Lanuwchllyn — mae'n or-wyr i Tom Jones, sefydlydd Côr Godre'r Aran ac ef eleni yw Llywydd UMCA yn y Brifysgol. Mae Steffan ei hun yn canu gyda'r Côr a gwelwyd ef yn un o'r prif rannau yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala ar y nos Sadwrn. Roedd hefyd yn un o arweinyddion Côr Aelwyd Pantycelyn y llynedd.

Y beirniaid ar y dydd Sadwrn - Rob Nicholls, Caerdydd S4C (Cerddoriaeth) a Tudur Dylan Jones, Caerfyrddin (Llefaru a barddoniaeth) , Dafydd Morgan Lewis



Heledd Hughes



Steffan Prys Roberts

Aberystwyth (Rhyddiaith a Thlws yr Ifanc). Mae Rob yn gyfarwydd i drigolion yr ardal ers ei adeg yn y coleg yma -yn wiry n Horeb yr arweiniodd ei Gymanfa Ganu gyntaf. Ar ôl cyfnod yn dysgu cerddoriaeth bu'n gweithio gyda'r BBC ac wedyn yn ymgynghorydd cerdd gyda Chwmni Avanti cyn ei benodi yn Olygydd Cynnwys Diwylliant gyda S4C lle bu ers Ionawr 2007

Magwyd Heledd Hughes yn Llanarth ac mae'n gystadleuwraig o fri — wedi cystadlu ar ganu a llefaru mewn eiseteddfodau ers pan oedd yn fach. Mae bellach yn dysgu yn Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan a dydd Calan bydd yn newid byd ac yn priodi. Dymunwn yn dda iddi ar yr achlysur. Mae ei thad- Geraint Hughes — yn frodor o Bow Street ac yn gyn-gystadleuydd ei hun yn Eisteddfod Penrhyn-coch lle roedd ei rieni yn gefnogwyr brwd. Geraint yw ysgrifennydd Cymdeithas Eisteddfodau Cymru.

Sefydlwyd grŵp Eisteddfod Gadeiriol Penrhyncoch ar Facebook lle gellir ymuno a'r grŵp a chadw mewn cysylltiad a'r newyddion diweddaraf am yr Eisteddfod.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Nia Lowri a Phil Davies, Aberystwyth, gynt o Garn Wen, ar enedigaeth Alys Elena, chwaer i Cari a Lili.

## Martin Wynn Morgan

Mae colled a gwagle mawr yng nghymuned Penrhyn-coch yn dilyn marwolaeth brawychus a sydyn Martin Morgan, Glan Ceulan. Fe gofir Martin gan bawb a'i adnabu fel un ymroddedig i'w deulu ac fel un a gyfrannodd cymaint i'w gymuned.

Ers ymgartrefu yma ym 1987 roedd Martin yn gefnogol o bopeth a ddigwydd ym Mhenrhyn-coch. Bu'n aelod o fwrdd llywodraethol yr ysgol gynradd a bu'n chwaraewr gyda thîm pêl-droed y pentref a hefyd yn hyfforddwr ymroddgar gyda'r ieuenctid. Roedd Martin wrth ei fodd â chwaraeon ac roedd gydag e'r ddawn o wneud ffrindiau boed ar y maes pêl-droed, ar y cae rygbi neu ar y cwrs golff.

Pan sylweddolodd fod ei ddyddiau fel chwaraewr yn dirwyn i ben, doedd dim yn well gan Martin na cherdded a rhedeg ar hyd y llwybrau gwledig lleol a gwneud yn fawr o'r cyfleusterau oedd ar stepen ei ddrws.

Er gwaetha'i holl ymrwymiadau a chyfrifoldebau, ni fyddai Martin byth yn rhy brysur am sgwrs a chlonc, neu i estyn cymorth. Fe'i welwyd yn gyson yn cerdded y ci ac yn sgwrsio gyda phawb ar ei ffordd. Yn wir, byddai siwrne pum munud i brynu papur newydd yn cymryd cryn dipyn yn hirach i Martin!

Roedd Martin yn gawr o ddyn ym mhob ffordd ac roedd yn mwynhau bywyd yn llawn. Gallai wastad godi calon â'i hiwmor a'i ddireidi. Fe fydd colled enfawr ar ei ôl yn ei ardal fabwysiedig a elwodd gymaint o'i gyfraniadau maith a diflino. Ac fe'i gofir gan ei ffrindiau niferus gyda gwên hiraethus.

## Diolch

Dymuna Esther, Rhys, Sara a'r teulu oll ddiolch am bob cymorth ac arwydd o gydymdeimlad a estynwyd iddynt yn eu colled.

## Urdd Gwragedd Sant Ioan

Dechreuwyd blwyddyn arall yn hanes Urdd y Gwragedd ar Fedi'r 7fed drwy ddathlu'r Cymun Bendigaid yn yr Eglwys, ac yna cafwyd swper ysgafn yn Neuadd yr Eglwys ble croesawyd aelodau newydd gan y Llywydd, Edwina Davies, Mair Jenkins, yr Ysgrifennydd ac Elsie Morgan, y trysorydd newydd. Y siaradwr gwadd am fis Hydref oedd Kate O'Sullivan — dangosodd sleidiau o Cambodia pan fu hi a'i gŵr yn gwneud gwaith VSO yno yn 1991-1994. Diolchwyd iddi am noson ddiddorol ac addysgiadol.

## Taith Dractorau

Ar fore Sul yr 20fed o Fedi fe welwyd gwledd i'r llyagd wrth weld oddeutu ugain o bob math o dractorau yn mynd yn rhes ar ôl ei gilydd drwy y pentre. Taith noddi tuag at Neuadd y Penrhyn oedd hon. Cychwynwyd o'r Neuadd yn y bore a chyrhaeddwyd yn ôl wrth y Clwb Pêl-droed yn y prynhawn i gael cinio ar ôl y daith hir. Mae pwyllgor y Neuadd yn ddyledus iawn i'r rhai a drefnodd ac a gymerodd ran yn y fenter hon. Deallwyd fod yna swm sylweddol









wedi cael ei gasglu. Diolch i bawb a gefnogodd.

### Croeso / Newid Cartref

Croeso cynnes i Catrin Petche sydd wedi dod i fyw i Glanceulan. Hefyd i Jack sydd wedi symud i 3 Tan-y-berth ac i'r teulu bach newydd sydd wedi dod i fyw yn 5 Tan y Berth.

### Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i bawb sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar. I Meirion Jones, 23 Glanceulan a fu yn cael triniaeth yn Ysbyty Bron-glais ac hefyd Mona Edwards, Hafod, a fu yn cael triniaeth ym Mron-glais.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Kirsty a Carwyn, Tan-y-berth ar enedigaeth merch ar 25 Medi - Cari — chwaer fach i Dylan ac wyres i Mair a Richie Jenkins.

I Nia a Pete, Caerdydd ar enedigaeth mab — Elis Wyn - ŵyr cyntaf i Richard Wyn a Gwenan Davies, 48 Ger-y-llan.

I Mandy a Stu, Glan Seilo, ar enedigaeth mab, Liam — brawd bach i Chloe a Matthew.

### Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau ym mis Medi cafwyd noson agoriadol y tymor. Fe agorwyd y noson gan y cyn-Lywydd wrth iddi ddiolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y tymor blaenorol. Cafwyd gair hefyd gan ein cyn-ysgrifenydd ac yna cafwyd adroddiad o sefyllfa ariannol y gangen gan ein cyn-drysorydd, ac hefyd fe ddymunwyd yn dda i'r swyddogion newydd. Yna fe gyflwynwyd y noson i ofal ein llywydd newydd, Ceri Williams, a'i holl swyddogion hi. Fe groesawodd bawb i'r cyfarfod yn aelodau hen a newydd. Dymunodd gwellhad buan i'r aelodau a fu yn wael ac yn yr ysbyty yn ystod yr haf. Llongyfarchodd rai o'r aelodau a ymddangosodd ar "Byw yn yr Ardd" sef Delyth Ralphs, Elsie Morgan a oedd i ddod ac Elizabeth Wyn. Fe aed ymlaen wedyn i drafod y busnes arferol a mynd trwy'r ohebiaeth ddaeth i law.

### Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Eddie a Connie Evans, Gwawrfryn, sydd yn dathlu Priodas Aur ar y 28 o Hydref 2009. Llawer o gariad oddi wrth Tina, Gareth a Neil.



Wedi gwneud hyn fe groesawodd y Llywydd ein gŵr gwadd am y noson, sef Dr Hedd Piper sydd yn Feddyg Ceiropracteg yng Nghlinic Corff Ystwyth, Aberystwyth. Cafwyd noson diddorol iawn yn ei gwmni wrth iddo ddangos i ni a sôn am boen cefn a sut oedd hyn yn digwydd mewn mwy nag un ffordd. Dywedodd wrthym am bethau na ddylem fod yn ei wneud a hefyd am beth allem wneud i helpu'n hunain wrth edrych ar ôl ein corff. Yn aml iawn gallwn ni ein hunain osgoi peri poen trwy beidio anwybyddu'n cyrff wrth wneud pethau na ddylem pan fel enghraifft plygu lawr, eistedd yn iawn ac yn y blaen, yn anymwybodol o hynny yn aml iawn. Do! Roedd yn agoriad llygad i lawer ohonom. Noson arbennig iawn. Diolchwyd i Dr Piper gan ein Llywydd ac fe ddiolchodd yntau am y cyfle i ddod atom a gwahodd unrhyw un i gysylltu ag ef os oedd angen yn ei glinic.

I ddiweddu'r noson gyntaf fe gafwyd cwpanaid a bwffe wedi ei baratoi gan yr aelodau a thynnwyd y raffl fisol. Ar nos Fawrth y 29 o Fedi aeth criw ohonom i ymuno â changen Wyre. Cafwyd croeso arbennig yno a noson hwyliog dros ben gyda chwmni drama Cymdeithas Ystrad Fflur a'r Cylch. Diolchodd Glenys Morgan ar ran ein cangen am y gwahoddiad ac am y bwyd blasus a gafwyd ar ddiwedd y noson ac am noson wych.

### PACT

Yng nghyfarfod diweddar PACT y tri phwnc a gafodd sylw oedd gyrru cyflym drwy'r pentref a'r ardal; seiclwyr yn teithio ar y palmant a heb olau a cŵn yn baeddu.

### Cymdeithas yr Ymddeolwyr

Fe gwrddodd Cymdeithas yr Ymddeolwyr am y tro cyntaf y tymor hwn ar y seithfed o Hydref pan ddaeth Dr Andrew Agnew atom i siarad am Kenya - gwlad ar y cyhydedd lle y mae yn dychwelyd iddi yn gyson i wneud ymchwil ara blanhigion. Gyda chymorth lluniau fe deithion ni o lan y môr i fewn i'r wlad, drwy y Dyffryn Hollt i'r ucheldir yn y gorllewin. Mae'n wlad lle mae'r hinsawdd tropic ar lan y môr yn newid wrth deithio oddi yno i'r tir uchel lle mae'n rhewi bob nos. Fel mae'r hinsawdd yn newid y mae'r planhigion yn amrywio ac hefyd y math o anifeiliaid sydd yn eu pori. Mae pob anifail yn ei gynefin yn cydfyw â'i gymydog lle mae un yn pori glaswellt ae llall yn pori dail y llwyni. Diolchwyd i'r siaradwr gan Dr C. Williams. Ar ôl y ddarlith cawsom y gwpaned arferol o de. Mrs M. Evans a enillodd y raffl. Siomedig oedd y nifer ag oedd yn bresennol. Un o anawsterau yr ymddeolwyr yw eu bod yn heneiddio ac mewn amser mae'r afiechyd yn dal lan. Ond ble mae'r aelodau newydd? Os ydych yn byw yn y Penrhyn neu'n gyfagos ymunwch â ni. Lle arall ellwch chi gael cyfarfod, raffl a phaned o de am bunt y pen ar b'nawn dydd Mercher cynta'r mis. Mae manylion y cyfarfodydd i'w cael ar bosteri drwy'r pentref y penwythnos cyn y cyfarfod. Croeso cynnes i bawb am gwpaned o de a sgwrs.

### Baw a baw

Gofynnodd un hen wag yn y pentref yn ddiweddar pam fod perchnogion cŵn yn cael eu herlyn am adael i'w cŵn faeddu ar y ffordd ond fod perchnogion ceffylau yn cael tragwyddol heol i adael eu baw ar y ffordd. Baw baw neu bow wow!

ytincer@googlemail.com

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

GWYNFOR DAVIES
ADEILADYDD

Manteg
Bow Street
Ffôn 828531

Defnydd Melanie
The Old Exchange Stores
Capel Bangor
(01970) 880 811
melaniefabrics@btopenworld.com
www.melaniefabrics.co.uk
Arbenigwyr mewn cwiltio a chlytwaith
Dosbarthiadau nos a dydd

# PEN-LLWYN A CAPEL BANGOR

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i William a Danielle, Cefnllidiart, ar enedigaeth eu merch fach ar Medi 5ed, chwaer i Owen ac Ella. Dymuniadau gorau i'r teulu bach.

## Bedydd

Bedyddiwyd chwaer fach Megan Fflur sef Efanna Mair, baban Aled a Nia Lewis Ystrad, yng nghapel Seion, Capel Seion, Ddydd Sul 27ain o Fedi, gan y Parchg Wyn Rh. Morris. Cafwyd gwasanaeth hyfryd a bendithiol, pryd yr ymunodd llawer o berthnasau a ffrindiau, ynghyd a Nain a Mam-gu. Dymuniadau da i'r teulu bach hwn yn ogystal.

## Noson codi arian i'r Tincer

Siom fawr mai ond pedair a roddodd eu presenoldeb yn noson y cwis ym Mhenrhyn-coch, yn ddiweddar, ond cafwyd noson hwyliog. Nid oedd eisiau ofni'r cwis!

## Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Ar nos Fawrth, 8fed Medi, cyfarfu'r aelodau ar gyfer cyfarfod cyntaf y tymor. Croesawyd pawb gan y llywydd, Beti Daniel. Mrs. Eluned Lewis, Swyddog Cymunedol Airtricity oedd y siaradwraig, ond fel Eluned (Hughes) Brynawelon roedd y mwyafrif o'r aelodau yn ei hadnabod. Fe'i cyflwynwyd gan y llywydd. Soniodd wrthym am yr angen am ddatblygu ynni adnewyddol ac am yr angen i greu mwy o ynni ym Mhrydain.

Ar hyn o bryd mae Nant-y-moch yn un o'r safleoedd sy'n cael ei ystyried ar gyfer datblygu fferm wynt. Clywsom am y gwaith sy'n rhaid ei wneud cyn cyflwyno cais cynllunio ar gyfer datblygiad o'r fath ac am y trafodaethau a gynhelir gyda'r gwahanol sefydliadau. Cafwyd cyfle i ofyn cwestiynau i Eluned ynglÐn â'r datblygiad arfaethedig a rhannodd hithau daflenni a holiaduron ymhlith yr aelodau.

Delyth Davies ddiolchodd i Eluned am ei chyflwyniad a'i sgwrs. Paratowyd cwpanaid ar ein cyfer gan Glenys Jones a Margaret Stephens. Dros gwpanaid trafodwyd materion yn ymwneud â'r mudiad ac â'r gangen. Gwenda Morgan a enillodd y wobr raffl.

Fel arfer bydd yr aelodau yn cyfarfod ar nos Fawrth cyntaf y mis yn Neuadd Bentref Capel Bangor ac mae croeso i aelodau newydd ymuno â ni.

## Clerc Cyngor Cymdeithas Melindwr

Cyfeiriad a rhif ffôn newydd y Clerc yw
22 Heol Isfoel
Llanrhystud
SY23 5BJ
01974 200814

## Cylch Meithrin Penllwyn

Hwyl fawr i Gail, arweinydd y cylch meithrin, a oedd yn gadael ddiwedd mis Medi. Cyflwynwyd anrheg a thusw o flodau iddi yn ystod y parti ffarwel, a chafwyd llun o: Gail Nolan, Megan Lewis, Deian Gwynne, Mali Jones a Harri Mason Jones.

Beth am ymuno a'r disco Calangaeaf? i'w gynnal yn neuadd y Pentref ar Nos Wener Hydref 23ain o 4 o'r gloch hyd 6, yn cynnwys gwisg ffansi a gêmau. Pris £2 wrth y drws. Croeso cynnes i bawb.

## Yn yr ysbyty

Cofion cynnes i Mr Sid Clench, Poplars, sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty wedi cael anffawd ac wedi datgymalu pen uchaf ei glun.



Bedydd Efanna Mair, gyda'i rhieni a Nain a Mam-gu!




Ysgol Feithrin Pen-llwyn gyda Gail Nolan, Megan Lewis, Deian Gwynne, Mali Jones a Harri Mason Davies.

# LLANGORWEN / CLARACH

## Cartref newydd

Pob dymuniad da i Ling a Louise Davies-Berner sydd newydd symud i'w cartref newydd yn Broadeaves, Llangorwen. Mae Ling yn reolwr yn archfarchnad Morrisons, a Louise yn gweithio i'r Swyddfa Bost yng Nglanyrafon. Mae'r ddau yn aelodau brwd o Glwb Bowlio Morfa Mawr, ac mae Louise wedi cynrychioli Cymru yn y gamp. Pob dymuniad da i'r pâr ifanc ar eu aelwyd newydd.

TAFARN TYNLLIDIART
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
EWR
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

AberTechnoFix
Cymorth cyfrifiadurol lleoledig yn Aberystwyth
Cyfrifiadur HELP?
Ymweliad cartref
Ffoniwch
07536 022 067

ytincer@googlemail.com

# TREFEURIG

## Sioe'r Gymdeithas

Cynhaliwyd y sioe prynhawn Sadwrn Medi 5 yn yr Hen Ysgol. Er bod nifer y ceisiadau wedi gostwng ers llynedd, yn ôl y beirniaid roedd y cystadlu o safon da. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i'r beirniaid am eu gwaith. Y llywydd eleni oedd Mrs Jane Jenkins, Kerry, Waun Fawr, a da oedd cael ei chwmni drwy gydol y prynhawn. Diolch iddi hefyd am ei haelioni.

Cynhaliwyd gwahanol weithgareddau i'r cyhoedd yn ystod y prynhawn gan gynnwys y raffl fewnol flynyddol a darparwyd lluniaeth ysgafn. Roedd paw bi weld wedi mwynhau eu hunain ar ddiwedd y dydd.

## Enillwyr

Adran Llysiau a ffrwythau
1. 4 twten — Ken Evans
2. 4 ffa dringo — Fred Ralphs
3. 3 winwin — Fred Ralphs
4. 4 shibwns — Fred Ralphs
5. 4 tomato — Fred Ralphs
6. 3 betys — Fred Ralphs
7. taten siap od — Nick Reeves
8. 1 maro — Marion Gray
9. 3 riwbob — Glyn Rowlands
10. 4 afal coginio — Glyn Rowlands
11. 4 afal bwyta — Ken Evans

Enillydd Tlws yr Adran — Fred Ralphs

**Adran blodau**
1. 4 rhywogaeth o flodau gardd — Alayne Reeves
2. 1 rhosyn persawrus — Alayne Reeves
3. 4 delia — Fred Ralphs
4. 4 pansi — Diane Jones
5. planhigyn cactws neu suddlon — Fred Ralphs
6. planhigyn tŷ — Diane Jones
7. trefniant o flodau mewn ffram llun — Rose Neville
8. trefniant o ddeiliant — Eileen Rowlands

Enillydd Tlws yr Adran — Diane Jones

Adran Gwaith llaw (Ci)
1. gwaith coed — Dewi Edwards
2. gwaith metel — Dewi Edwards
3. ffotograffiaeth (i snap) — Alayne Reeves
4. ffotograffiaeth (ii snap) — Hazel Sharp
5. ffotograffiaeth (wedi'i fowntio) — Trefor Davies
6. arlunio — Rose Neville
7. crefft — eitem o waith llaw — Rose Neville

Enillydd Tlws yr Adran — Rose Neville

**Adran Gwaith llaw (Cii)**
1. potel wedi'i haddurno — Rose Neville
2. gwau â llaw — Alayne Reeves
3. crosio — unrhyw eitem — Rose Neville
4. eitem wedi ei wnio â pheiriant — Rose Neville
5. brodwaith — Rose Neville
6. gwaith tapestry — Beth Walker

Enillydd Tlws yr Adran — Rose Neville

**Adran Coginio a chyffaith**
1. torth o fara brith — Eleri Davies
2. pwdin reis — Eleri Davies
3. 6 pice ar y maen (dynion yn unig) — Bryn Walker
4. 4 cacen Eccles — Delyth Ralphs
5. spwng fictoria — Delyth Ralphs
6. dysgl i llysieuwyr — Marion Gray
7. pastai Cernywaidd — Eleri Davies
8. pate cartref — Eleri Davies
9. pot o picl cymysg — Eleri Davies
10. 4 ŵy iar (gwyn) — Eleri Davies
    4 ŵy iar (brown) — Eleri Davies
    4 ŵy iar (lliw) — Fil Wills

Enillydd Tlws yr Adran — Eleri Davies

Adran Plant (4 i 7 blwydd oedd cynwysedig)
Enillydd Tlws yr Adran — Ifan Davies

Enillydd y Tlws am y marciau uchaf yn adrannau A-D — Eleri Davies

**Ceffyl neu ferlen — merlen yn y cyflwr gorau (1-3 blwydd oed cynwysedig)**
Enillydd cyffredinol — Sera Walker gyda Bertie

**Adran Cynnyrch fferm**
sampl o silwair — Glyn Rowlands
sampl o wair — Glyn Davies
ysgellyn talaf — Fil Wills
sampl o wywair — Glyn Rowlands
tywarchen o borfa — Glyn Rowlands
sampl o rêp — Glyn Rowlands
sampl o gnwd gwreiddlysiau — neb yn cystadlu
sampl o gnydau glâs — neb yn cystadlu

**Adran plant (8-11 blwydd oed cynwysedig)**
Enillydd y Tlws — Dewi Davies

**Adran Plant ysgol gyfun**
Cyd-enillwyr y Tlws — Ellis Walker a Catrin Walker

**Adran Dofednod agored**
1. iar dodwy orau — Hywel a Maddy Lewis
2. ceiliog gorau — Hywel a Maddy Lewis
3. Hwyaden orau — Catrin Walker
4. Meilart (ceiliog hwyad) orau — Catrin Walker

**Adran Sioe gãn drwyddedig**
Dosbarth 6 — dim cystadlu
Dosbarth 7 — Mari Healy
Dosbarth 8 — Maddy Lewis
Dosbarth 9 — Hazel Sharp
Dosbarth 10 — Trefor Davies
Gorau yn y sioe — Hazel Sharp

**Adran Defaid**
Diadell fynydd orau 100 o famogiaid (yn cynnwys mamogiaid o wahanol oedrannau, hyrddod magu a wyn menyw)
Enillydd — Ken Evans, Coed Gruffydd

**Diadell orau dan 100 o famogiaid**
(unrhyw frid)
Enillydd — Doug Theobald, Bryngolau

**Adran Ceffylau**
Ceffyl neu ferlyn/merlen yn y cyflwr gorau (plant) — Thomas Gillison — Harry Flashman

Ceffyl neu ferlyn/merlen yn y cyflwr gorau ar gyfer ceffylau/ merlod 16 oed a throsodd — Hywel a Maddy Lewis — Penny

Ceffyl neu ferlyn/merlen yn y cyflwr gorau ar gyfer ceffylau/ merlod o unrhyw oedran — Sera Walker - Bertie

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffon (01970) 880627

M & D PLUMBERS
Gwaith plymer & gwresogi
Prisiau Cymharol;
Gostyngiad i Bensiynwyr;
Yswiriant llawn;
Cysylltwch â ni yn gyntaf ar
01974 282624
07773978352

GWAITH GARDDIO
Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

HEIRIO JONES HIRE
• Mini Digger
1½ ton - 3 ton iw gael
• Dumpers
• Trailers
CASGLWR SGRAP
YN EISIAU TRACTORAU A PHEIRIANNAU FFERM
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

oriel Tir a Môr gallery
01970 871 042
Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

Posh Paws
Salon cŵn
Torri cŵn i fri safonol
Goginan
Kath 01970 880988
07974677458

# GOGINAN

### Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Eric a Margaret Stephens, Erw Deg a ddathlodd eu Priodas Aur ar Fedi 11eg.

### Rhaglen Nia

Braf oedd clywed lleisiau brodorion o ardal Goginan gyda Hywel Gwynfryn ar raglen Nia bore Mawrth Medi 29. Fe fu Gareth Jones, Coedlan, Ifan Mason Davies, Coed Rhiwfelen ag Aled Bebb, Penpistyll ynghyd â Ceiriog Gwynne Evans awdur y llyfr am Goginan yn trafod hanesion yr hen gymeriadau roedd wedi sôn amdanynt yn y gyfrol.

### Swydd Newydd

Mae Lisa Saycell wedi dechrau ar ei swydd gyda Cyngor Ceredigion fel swyddog yn yr adran Gwarant. Pob lwc i ti yn y swydd newydd.

### Cwrdd Diolch am y cynhaeaf


Roedd nifer dda yn bresennol gyda chwmni rhai o Eglwysi'r cylch. Cafwyd pregeth gan y Parchg J. E. Wynne Davies, Aberystwyth o Lythyr Cyntaf Paul at y Thesaloniaid, Pennod 5 Adnod 18 :- Ym mhob dim diolchwch: canys hyn yw ewyllys Duw yng Nghrist Iesu tuag atoch chwi. Pregeth rymus a neges i bob un ohonom. Da oedd bod yn bresennol. Roedd y capel wedi ei addurno yn hardd. Diolch i Eirlys Davies, Brynmeillion am drefnu y blodau fel arfer.

### Cystadleuaeth Bwganod Brain Goginan

Ar 12fed Medi chynhaliwyd parti pentre Goginan i'w thrigolion a'u ffrindiau. Unwaith eto roedd y tywydd yn fendigedig ar gyfer yr achlysur. Cafodd pawb wledd o fwydydd cartref, adloniant amrywiol gan ddoniau'r gymuned leol yn ogystal â gweithgareddau creadigol i'r to ifanc yn y babell eco-celf. Gyda llawer yn cyfrannu yn hael at lwyddiant y diwrnod mae'n rhaid talu clôd arbennig i Colin Armstrong a Louise Herschel am ddod â phopeth at ei gilydd.

Un o'r uchafbwyntiau eleni yn sicr oedd cystadleuaeth y bwganod brain ar gyfer plant y pentref. Pythefnos cyn y parti ymddangosodd sawl bwgan brain o amgylch y pentref, e.e. "Daft Vader" a "Fairy Goth Mother" i ysbrydoli'r plant. Roedd ymateb y plant yn wych a, gyda'r safon yn uchel dros ben, anodd iawn oedd tasg y beirniadu. Cydradd gyntaf oedd Gethin ap Dafydd a Lily Hancox. Da iawn nhw'n dau a phawb arall am gymryd rhan. Roedd gweld yr holl gymeriadau lliwgar a doniol o flaen y llwyfan drwy'r nos ac wedyn ar groesffordd Dollwen drwy'r wythnos ganlynol wedi rhoi cymaint o bleser i ni i gyd!

*Once Upon a Time in Goginan.* Ceiriog Gwynne Evans. Y Lolfa. £14.95 320t.




Hunangofiant a phortread o bentref ac ardal yw'r gyfrol hon, a dylai fod o ddiddordeb mawr i unrhyw un o fro'r Tincer sy'n perthyn i'r genhedlaeth a oedd yn ieuanc ychydig cyn ac yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ond yn naturiol y mae iddi apêl llawer ehangach na hynny. Yn sicr y mae iddi ddiddordeb arbennig i mi am sawl rheswm. Fe'm magwyd yn y cwm sydd am y mynydd â Goginan, ac yr oeddwn yn ddisgybl yn Ysgol Ardwyn yr un pryd â'r awdur — er rhyw flwyddyn neu ddwy efallai yn iau — a da y cofiaf am ei dalentau ym myd cerddorol yr ysgol pan oeddem yno. Rheswm arall am fy niddordeb yw'r ffaith mai brodor o Goginan oedd fy nhad — yn wir, fe anrhydeddir brawd iddo, Dan Jones, â phennod gyfan iddo ef ei hun yn y gyfrol — ac y mae'r hanesion a adroddir rhwng ei chloriau yn llawn o gymeriadau a digwyddiadau a hanesion y clywais fy nhad, a'i chwaer y ddiweddar Blodwen Harvey, yn eu hadrodd yn aml. Ond rhaid cyfaddef i mi ddysgu llawer, llawer mwy am ardal Goginan a'i phobl a'i phethau wrth ddarllen y gyfrol swmpus a diddorol hon.

Mae'n gyfrol a gynlluniwyd yn ofalus, a'i chynnwys yn symud yn hamddenol o gyfnod i gyfnod, gan ddechrau drwy osod Goginan yn ei gyd-destun hanesyddol a daearyddol, a dirwyn i ben, mwy neu lai, ym mhumdegau'r ganrif ddiwethaf, ar ôl dilyn hynt a helynt yr awdur o'i fabandod, heibio'i fachgendod hyd at ei lencyndod, gan ddwyn i mewn ar y daith honno, gefndir diwydiannol yr ardal, hanes addysg a chrefydd ynddi, a phob math o ffeithiau perthnasol eraill. Ond ceir wedyn ychydig benodau ychwanegol am gymeriadau hynod megis Dei Bwtsh a Bill y Go, a Marie a Betty, dwy fodryb i'r awdur, y ddwy yn llwyddo i fynd heibio'r cant oed, a dwy bennod arbennig o ddifyr yn dwyn y teitlau 'Cameos', lle coffeir ymhlith eraill Peter Goginan a'r hen gyfaill annwyl Byron Howells, a 'More Anecdotes and Other Bits of Interest'.

Yn y bennod 'Dei Bwtsh . . .' cyfeiria'r awdur at y plisman lleol, P.C Matthias, ar un achlysur arbennig mewn cyflwr a ddisgrifir fel 'a little worse for wear' ar ôl galw yn y Maesbangor Arms ym Mhen-llwyn. Daeth hyn ag un o straeon fy nhad i'm cof, amdano ef yn grwt ifanc yn cael ei anfon gan ei fam i chwilio am ei dad, Morgan Jones, a oedd yn hwyr iawn yn dod adref o'i waith. Daeth o hyd iddo'n cysgu'n braf ar lechwedd bach uwchlaw nant Melindwr, ac wrth ei ochr, yn cysgu yr un mor braf, P.C. Matthias, y ddau wedi treulio orig ddifyr yn rhoi y byd yn ei le yn y Druid Inn yng nghanol y pentref. Yr oedd helmed y P.C., meddai fy nhad, wedi rowlio i lawr at ymyl y nant.

Casglwyd at ei gilydd nifer sylweddol o luniau, sy'n ychwanegu'n fawr at apêl y gyfrol, a cheir yma a thraw nifer o gartwnau sy'n darlunio ambell sefyllfa ddigri a ddigwyddodd o bryd i'w gilydd yn hanes yr ardal. Hyd y sylwais ni nodir pwy a'u lluniodd, ond tybed ai agwedd arall ar dalentau Ceiriog Gwynne Evans yw'r rhain?

Diolch iddo beth bynnag am gyfrol sydd nid yn unig yn hynod o ddarllenadwy ond un y mae cariad at fro yn tywynnu drwyddi.

**Tegwyn Jones**

## O'r Cynulliad – Elin Jones AC

Mae'r haf wedi dod i ben, er, fyddai ambell un rwy'n adnabod yn dadlau na welwyd llawer ohono'n y lle cyntaf! Fe ges i haf prysur gyda nifer o sioeau hyd a lled Ceredigion yn dal i fwrw ymlaen er gwaethaf y tywydd cyfnewidiol. Roedd hi'n braf i weld cynifer o bobl yn mynychu'r sioeau ac fe hoffwn gymryd y cyfle i longyfarch yr holl gystadleuwyr ar eu llwyddiant ac i bwyllgorau pob sioe am eu gwaith caled.



Ym mis Gorffennaf, fe fynychais y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd am y pedwar diwrnod llawn. Yn ystod Sioe, fe gyhoeddais cynlluniau newydd i roi cymorth i bobl ifanc sydd am ddechrau yn y diwydiant amaethyddol. Roeddwn hefyd yn falch i weld cymaint o wynebau cyfarwydd o Geredigion yn Llanelwedd, a chyda llai na blwyddyn tan y bydd ein sir yn noddi'r Sioe, mae'r gwaith o godi arian ar gyfer yn ei flaen yn llwyddiannus.

Yn ystod wythnos cyntaf Awst, fe deithiais i'r Bala i fynychu'r Eisteddfod Genedlaethol. Roedd hi'n wythnos wych gyda'r tywydd yn ffafriol. Yno, mynychais lansiad apêl i godi arian i brynu a chynnal wal 'Cofiwch Dryweryn' ger Llanrhystud er mwyn sicrhau bod y gofeb yno am flynyddoedd i ddod.

Yng nghanol mis Awst, fe ymunais â Gweinidog Iechyd Llywodraeth y Cynulliad, Edwina Hart AC, ar ymweliad ag Ysbyty Bron-glais yn Aberystwyth. Pwrpas yr ymweliad oedd gweld y cynlluniau ar gyfer codi estyniad newydd i'r ysbyty er mwyn darparu cyfleusterau newydd fydd yn cynnwys theatrau a ward mamolaeth newydd. Y gobaith yw y bydd y gwaith adeiladu'n cychwyn cyn diwedd y flwyddyn ac yn parhau am y blynyddoedd nesaf.

# Dr LEWIS EDWARDS(1809 - 1887)

Ganed Lewis Edwards yn hynaf o wyth plentyn Lewis a Margaret, fferm Pwllcenawon, Pen-llwyn, ar 27 Hydref 1809, ac ar ben dau ganmlwydd ei eni mae'n briodol cofio am ei gyfraniad nodedig fel pregethwr, diwinydd, golygydd a sylfaenydd a Phrifathro Coleg y Bala. Roedd yn dda darllen yn Gair o'r Garn fod cyfeillion Capel Seion dan arweiniad John Tudno Williams wedi cynnal oedfa yng nghapel Pen-llwyn i ddathlu cyfraniad Lewis Edwards a Ieuan Gwyllt, un arall o feibion disglair yr ardal.

Lluniwyd cofiannau i Lewis Edwards gan ei fab Thomas Charles (Prifathro cyntaf Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth), a Trebor Lloyd Evans, ac yn ddiweddar cafwyd cyfrol gampus amdano gan D. Densil Morgan yng nghyfres 'Dawn Dweud', Gwasg Prifysgol Cymru. Gobeithio y bydd nifer ohonoch yn ei phrynu a'i darllen. Dywed Densil, "Lewis Edwards oedd pennaf ysgolhaig Cymru'r 19G. Gwnaeth fwy na neb i godi safonau'r Gymru Anghydffurfiol a'i gosod ar seiliau dysg ryngwladol. Trwy ei gysylltiadau â'r Alban, clymodd y Methodistiaid Calfinaidd yn dynn wrth y traddodiad Presbyteraidd a'u troi o fod yn sect i fod yn gangen braff o'r eglwys fyd-eang. Fel sefydlydd Coleg y Bala a golygydd cyntaf Y Traethodydd , llwyddodd i ehangu gorwelion ei gydwladwyr ac asio'u duwioldeb wrth ddiwylliant lletach nag a fu'n gyffredin o'r blaen".

Manylir yn ddiddorol yn y gyfrol ar ddyddiau cynnar Lewis ac am ei syched ef a'i gyfaill John Phillips, Pontrhydfendigaid (pregethwr, gweinidog a Phrifathro y Coleg Normal) am addysg. Mae'n anodd i ni gredu fod y brodyr Ebenezer Richard, Tregaron, a'i frawd Thomas Abergwaun, arweinyddion dylanwadol y Methodistiaid yng Ngheredigion a Phenfro, wedi gwrthwynebu'n chwyrn gais Lewis am fynd i goleg. Dyma ddywed Densil Morgan am eu hagwedd: "Nid addysg oedd eisiau ar bregethwr ond ymgysegriad a ffydd, porthi balchder a wnâi unrhyw addysg gyffredinol heb sôn am addysg uwch, ac ni ddylai'r pregethwr ifanc o Ben-llwyn gael syniadau uwch na'i stâd ... Yr hyn na ddywedwyd oedd y byddai cael pregethwyr a fyddai'n cyfuno grym ysbrydol, gallu ymenyddol, diwylliant eang a dysg ffurfiol yn fygythiad i awdurdod y to presennol o arweinwyr awtocratig"."Yr oedd Ebenezer Richard a'i frawd yn benderfynol yn fy erbyn", meddai Lewis Edwards.

Gwnaeth y profiad Lewis yn fwy penderfynol ac ar ôl gyrfa academaidd ddisglair yn Llundain a'r Alban agorodd ysgol a ddatblygodd yn goleg yn y Bala ym 1837, flwyddyn ar ôl priodi Jane, wyres Thomas Charles yn Llanycil. Does gen i ddim gofod i fanylu ar waith y Prifathro a'i gynorthwywyr yn hyfforddi cannoedd o ddynion ifanc yn y coleg (roeddwn yno hanner canrif yn ôl), nac ar gyfraniad enfawr Lewis Edwards mewn amrywiol feysydd. Gyda Roger Edwards cychwynnodd Y Traethodydd ym 1845 (diolch ei fod yn parhau dan olygyddiaeth Dr Brynley Roberts) i roi llwyfan i bobl drafod pynciau ar wahân i ddiwinyddiaeth, megis gwyddoniaeth a daeareg. "Does dim ond rhaid edrych ar y cyfrolau cynnar", meddai 'nhad yng nghyfraith, Harri Williams yn ei gyfrol Duw, Daeareg a Darwin (Gomer, 1979) - cyfrol berthnasol wrth gofio Darwin eleni - " i weld fod Lewis Edwards wedi lledu'r pyrth ac ehangu'r gorwelion o 1845 ymlaen.

Ni ddylai'r cam mawr a wnaeth Lewis Edwards â'r Gymraeg na'i driniaeth anfrawdol o Emrys ap Iwan beri inni golli golwg ar ei gyfraniad nodedig fel dysgawdwr, golygydd ac awdur torethiog. Er nad oes llawer o ddarllen ar ei lyfrau bellach cofiwn am ei bedwar emyn yn Caneuon Ffydd, yn enwedig ei drosiad o emyn W. Cowper, 'Trwy ddirgel ffyrdd mae'r uchel Iôr yn dwyn ei waith i ben' a genir gennym o hyd. Canwch yr emyn, oedwch i ddiolch am fab disglair Pwllcenawon o flaen ei gofeb y tu allan i gapel Pen-llwyn, ewch at ei gofeb o flaen Coleg y Bala ac at ei fedd yn Llanycil.

W J Edwards



Llun: Lyn Lewis Dafis

Blodau i bob achlysur
**Blodau'r Bedol**
Priodasau . Pen blwydd . Genedigaeth . Angladdau . Blodau i Eglwysi a Chapeli neu unrhyw achlysur
**Donald Morgan**
Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB
Ffôn 01974 202233
Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer

**CIGYDD BOW STREET**
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

**TACSI EDDIE**
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

LLETY PARC
Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas
Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

**CYSYLLTWCH Â NI**
ytincer@googlemail.com

## COLOFN MRS JONES

Methais gyflwyno colofn mis Medi, roedd sawl rheswm da paham rhag ofn i chi i gyd feddwl mai diogi oedd yn fy lladd i ac roedd hi'n gysur sylweddoli fod pobl yn gweld eisiau fy ngholofn. Mae pawb yn hoffi maldod i'w ego hyd yn oed y fi.

Fe fum ar fy ngwyliau ers i mi ysgrifennu atoch ddiwethaf a bum yn myfyrio ar broblemau bwch gafr fel yr arferai mam ei ddweud. Hynny yw, bum yn myfyrio ar bethau ansylweddol ond yr wyf, serch hynny, yn gobeithio na welwch ffrwyth fy myfyrdodau yn ddiflas.

Un peth a sylwais yw fy mod mewn lleiafrif bychan iawn. Wrth orwedd ger y pwll nofio, sylweddolais mai myfi oedd yr unig ferch yno heb datŵ. A rwy'n dweud y cyfiawn wir, yr oedd gan hyd yn oed wragedd hŷn na mi un. Rwan, nid oes gennyf ddim i'w ddweud o blaid tatŵ ar ddyn ond, o leiaf, y mae grym arferiad y tu ôl i arfer dynion yn ymbeintio fel hyn. Ond ffasiwn llwyr yw i ferched, ac, fel pob ffasiwn arall, fe â yn anffasiynol gyda threigl amser. A beth a wna'r merched hyn pryd hynny? Fedra nhw ddim rhoi'r tatŵ yn y wardrob hyd nes daw'r ffasiwn rownd eto na rhoi hem arno fel y medrwch chi ei wneud gyda sgert anffasiynol o hir. Mae tatŵ am oes ac er y medrwch chi gael ei dynnu, mae hynny yn costio mwy na'r tatŵ ac yn gadael craith ar ei ôl.

Er tegwch â'r merched, yr oedd rhai o'r darluniau yn hardd ac yn amlwg yn adlewyrchu rhyw anian unigryw yn eu perchennog. Ond nid oedd eraill ddim amgen na sgribls ffug Geltaidd dulas na ychwanegent ddim at harddwch neb.Wn i ddim beth oedd pwrpas y rheiny os nad mai profi diffyg dychymyg yr oeddynt. Ond gadawai'r ddau fath fi yn meddwl paham y trafferthodd y merched addurno eu hunain mewn ffordd mor boenus a pharhaol.

Yr oedd gan lawer ohonynt dlws bogail hefyd ac yr oedd hi yn amlwg fod rhai o'r tlysau a arddangosid yn werthfawr. Diau fod hyn hefyd yn beth poenus iawn i'w wneud ac yn beth peryglus iawn, yn ogystal. Ni holias i neb ond a yw'r merched yn eu gwisgo o hyd yntau dim ond pan yn gwisgo bicini? Os yden nhw yn eu gwisgo dan ddillad cyffredin, a ydynt yn dal yn y dillad a'u rhwygo a rhwygo'r hollt yn y bogail hefyd? Fe ŵyr y rhan fwyaf o ferched boen dal clustdlws mewn siwmper wrth ei gwisgo, mae meddwl am dynnu tlws bogail yn ddigon i rhywun ddanto yn llwyr.

A thybed beth fyddai adwaith fy mam? Yr oedd honno yn gaeth i ethos, peidio mynd allan heb sannau ond gwae defnyddio rhai du gyda esgidiau gwyn, gwisgo menyg gyda dillad gorau ond doedd fiw i rheiny fod yn wyn ac eithrio yn y gwanwyn a'r haf - fe fyddai'r hen wraig yn cael ffit pe welai ferched heddiw! Yr oedd ganddi fyrdd rheolau eraill hefyd, dim trwsus os nad oedd amgylchiadau yn gofyn am un, llewys tri chwarter ar ôl cyrraedd oed arbennig, gwallt cwta a dim gyddfau isel ar ddillad ac eithrio dillad min nos a roedd rhaid bod yn rispectabl pryd hynny! Druan ohoni, fe fagodd ferch a dorrodd bron bob un o'i rheolau. Ond y mae iddi un cysur. Ni feddyliodd erioed fy rhybuddio rhag tatŵ ac nid oedd raid iddi ychwaith, ni feddyliwn erioed gael y fath beth, yr ydw i yn rhy lwfr ac yn rhy ymwybodol o'u hirhoedledd.

## COLOFNYDD Y MIS



## Seiriol Hughes

Mae dros flwyddyn wedi mynd heibio ers i mi symud o ddalgylch *y Tincer* i ardal *Papur Dre*, o Bow Street i Gaernarfon yn dilyn cyfnod yn nhre'r Cambridge Evening News. Efallai na fyddech chi'n meddwl bod gan bentrefi ardal Tirymynach lawer yn gyffredin gyda Thref Frenhinol yn Arfon ond o ddarllen papurau bro'r ddwy ardal, fe welwch chi lawer o straeon tebyg.

Yn hytrach na darllen am lwyddiannau ysgolion Rhydypennau a Phenrhyn-coch, cewch chi hanes ysgolion yr Hendre a Syr Hugh Owen ac yn lle clywed hanes rhywun sy'n byw ym mhellafoedd Caernarfon, mae hanes bachgen ifanc o'r dref sy'n byw yn Awstralia.

Mae rhai pethau'n wahanol, wrth gwrs. Mae castell Edward y Cyntaf yn dipyn mwy crand na Chastell Gwallter a dwi ddim yn siwr a welwn ni golofn 'Tafarn y Mis' yn y Tincer yn y dyfodol agos.

Yr hyn sy'n fwyaf gwahanol am fyw yng Nghaernarfon yw Cymreictod hynod y dref. Mae Cofis Dre yn falch iawn o'r cysylltiad brenhinol, yn enwedig y genhedlaeth hŷn — mae 'Brenhinol' yn dal yn rhan o enw'r clwb golff, er enghraifft — ond mae'n rhaid edrych tu hwnt i hynny. Beth sy'n chwa o awyr iach yma yw'r hyder sydd gan bawb i ddefnyddio'u Cymraeg. Nid hyder uchel ei gloch ond hyder tawel, naturiol: 'dyma'r iaith dwi'n ei siarad.' Mae'n brofiad rhyfedd siarad Cymraeg â phawb, credwch fi, cymerodd hi fisoedd i mi ddod i arfer a dwi'n dal ddim yn deall hanner yr acen!

Er nad ydw i wedi cael y cyfle i hedfan i wledydd AS a Marca, y Gazzetta dello Sport a'r Süddeutsche Zeitung gyda fy ngwaith ar raglen Sgorio eto, rydw i wedi cael y cyfle i deithio sawl ardal llawer brafiach drwy weithio ar Sgorio Cymru — ardaloedd papurau fel *Pethe Penllyn, Wilia, Y Bedol* a *Cwlwm*. Ar ôl byw yn Bow Street am gyfnod cyhyd, mae'n brofiad rhyfedd ar y naw gyrru drwy'r pentref bron yn wythnosol ar daith i weithio ar gêm. Dwi'n dechrau dod i ddeall nawr bod Bow Street annwyl yn un o'r llefydd hynny rydych chi'n gyrru drwyddyn nhw ar y ffordd i rywle arall, fel Rhydargaeau neu Ganllwyd, i bawb heblaw darllenwyr papur bro'r pentref hwnnw.

Ond pan fydda i'n cael cyfle ambell waith i dorri fy siwrne yn fy hen fro, gwn y byddaf yn cael croeso brenhinol yn ardal y Tincer Tlawd.

**Ers graddio yng Nghaergrawnt mae Seiriol yn gweithio fel ymchwilydd gyda chwmni Rondo yng Nghaernarfon.**

Y mis nesaf: Sara Moseley

C.J.Belsey Cyf
Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrfewr Siartredig Adeiladau
RICS
• Arolygon Adeiladau
• Cynllunio adeiladau newydd.
• Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
• Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.
Ffon: 01970 820166

Gwasanaeth Cynnal M.H.
Gwasanaeth Torri Porfa a Garddio, Peintio, Teilo, D.I.Y. a manion waith eraill o amgylch y tŷ
Disgownt i bensiynwyr
Ffoniwch ni yn gyntaf ar 01970 881090 / 07792457816

James Memorials
Am GOFEBAU ARBENNIG BEDDARGRAFFIADAU ADNEWYDDU O SAFON ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing, Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

ytincer@googlemail.com

# CYNGOR CYMUNED TREFEURIG

Cyfarfu'r Cyngor Cymuned nos Fawrth, 28 Gorffennaf, yn Hen Ysgol Trefeurig gyda'r Cadeirydd, Richard Owen, yn llywyddu. Roedd pum cynghorydd arall yn bresennol ynghyd â'r Clerc; derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y cynghorwyr eraill (roedd Kari Walker yn cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfod arall).

Roedd Trefor Davies wedi bod yng nghyfarfod blynyddol Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig. Adroddodd fod lês y grŵp ar yr Ysgol yn dod i ben ar 7 Medi ond nid oedd y Grŵp wedi clywed dim gan y Cyngor Sir hyd yma am beth fyddai'n digwydd ar ôl hynny. Roedd cyfarfod cyhoeddus i'w gynnal yn yr Ysgol ar 7 Medi. Adroddodd Gwenan Price ei bod wedi cael ei hethol yn Gadeirydd PATRASA (Cymdeithas Cae Chwarae'r Penrhyn) yn ei gyfarfod blynyddol yn ddiweddar. Bu Kari Walker a Richard Owen yng nghyfarfod blynyddol Pwyllgor Ardal Ceredigion o Un Llais Cymru.

Roedd Un Llais Cymru yn trefnu cyrsiau hyfforddi ar gyfer cynghorwyr cymuned; penderfynwyd y dylai'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd fynychu un o'r cyrsiau hyn ym mis Tachwedd fel man cychwyn i weld a fyddai gwerth mewn mynychu rhagor. Roedd y Post Brenhinol wedi cadarnhau y byddent yn fodlon newid cyfeiriad post rhai tai o 'Cwmsymlog' i 'Pen-bont Rhydybeddau' pe byddai'r bobl a effeithid i gyd yn cytuno i hynny. Cytunwyd y byddai aelodau o'r Cyngor yn mynd o gwmpas y tai perthnasol i gael cytundeb ysgrifenedig y trigolion pan fyddai'r ffurflenni pwrpasol ar gael.

Rhoddodd y Clerc adroddiad am yr incwm a'r gwariant ar gyfer chwarter cyntaf 2009/10. Adroddodd hefyd fod yr archwiliad mewnol o gyfrifon 2008/09 wedi'i gyflawni a rhoddwyd copi i'r aelodau, a derbyniwyd yr adroddiad. Byddai'r cyfrifon ar gael i'r cyhoedd eu gweld tan ddiwedd Gorffennaf, ac yna fe fyddent yn cael eu pasio ymlaen i'r archwiliwr allanol.

Adroddwyd fod Cyngor Ceredigion wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol: plot ger Awelon, Cefn-llwyd — tŷ a storfa; 69 Ger-y-llan, estyniad; tir ger Glanseilo — rhan gyntaf o ddatblygiad; tir yn perthyn i Ben-banc uwchben y Gelli — chwech o dai. Roedd y Cyngor yn siomedig iawn fod y cais olaf wedi'i ganiatáu gan ei fod wedi cael ei wrthwynebu gan y Cyngor Cymuned. Nid oedd y Cyngor o blaid ehangu'r pentref ymhellach i gyfeiriad y dwyrain gan fod y ffordd yn gul iawn ac fe fyddai hefyd yn golygu cynyddu'r traffig drwy'r pentref.

Ni chynhaliwyd cyfarfod ym mis Awst, ond cyfarfu'r Cyngor ar 15 Medi yn Neuadd y Penrhyn. Roedd y Cadeirydd, wyth o'r cynghorwyr a'r Clerc yn bresennol. Cydymdeimlwyd â'r Cyng. Trefor Davies, a oedd newydd gael profedigaeth, a phenderfynwyd anfon llythyr o gydymdeimlad at gyn-aelod o'r Cyngor, Dilwyn Lewis, gan fod ei ferch, Tirion, wedi derbyn anafiadau difrifol mewn amgylchiadau trallodus iawn.

Trafodwyd y llain fechan o dir ar Stad Dôl Helyg a oedd wedi'i dynodi'n dir ar gyfer defnydd y gymuned pan roed caniatâd i'r stad. Fodd bynnag nid oedd unrhyw amodau pendant ynglÐn â'r defnydd; roedd y tir yn dal yn eiddo i'r datblygwr ond roedd yn berffaith fodlon ei drosglwyddo at ddefnydd cymunedol. Ar hyn o bryd roedd y tir yn flêr, ac roedd y trigolion cyfagos wedi holi beth oedd yn mynd i ddigwydd iddo. Penderfynwyd holi Cyngor Ceredigion a fyddai hi'n bosib ei wneud yn rhandir ('allotment') i'w osod. Ynglŷn â'r cais am ychwaneg o le i barcio ar Stad Tan-y-berth, roedd Cyngor Ceredigion wedi dweud y dylid cysylltu â Tai Ceredigion ar ôl i'r tai gael eu trosglwyddo iddynt ym mis Hydref. Daethai llythyr hefyd oddi wrth un o drigolion y Stad yn tynnu sylw at y ffaith fod moch coed yn disgyn o'r coed uchel ar derfyn y Stad. Roedd rhai o'r rhain yn drwm a chan eu bod yn disgyn o uchder roeddynt yn gallu bod yn beryglus. Roedd sgrin car wedi'i gracio gan un ohonynt, ac roedd maes chwarae a ddefnyddid gan blant bach hefyd gerllaw. Penderfynwyd tynnu sylw'r Cyngor Sir at y sefyllfa, a chefnogi'r galw am docio'r coed.

Cafwyd adroddiad gan Dafydd Sheppard am gyfarfod a drefnwyd gan Shelter Cymru lle cafwyd gwybodaeth helaeth am y gwasanaethau oedd ar gael ar gyfer pobl oedd yn cael anawsterau i ddod o hyd i le i fyw. Roedd Kari Walker wedi bod mewn cyfarfod o Grŵp Cyswllt Airtricity, ac roedd y Grŵp o'r diwedd wedi cytuno ar gyfansoddiad y Grŵp. Roedd cyfarfod cyhoeddus wedi'i gynnal ar 7 Medi yn Ysgol Trefeurig i drafod dyfodol y lle. Cawsai'r Grŵp lês am 12 mis yn rhagor gyda'r dewis ar ôl hynny o gael lês tymor hir neu brynu'r adeilad ar bris y farchnad. Roedd y Grŵp yn ystyried beth i'w wneud.

Trafodwyd y cynigion ar gyfer cynhadledd flynyddol Un Llais Cymru a oedd i'w chynnal ym Mhontrhydfendigaid ar 10 Hydref. Ni allai'r Cadeirydd fod yn bresennol, felly fe ddewiswyd Dai Rees Morgan i fynd gyda Trefor Davies i'r cyfarfod. Roedd Cyngor Ceredigion yn bwriadu cynnal cyfarfod ymgynghorol i gynghorau cymuned ardal Aberystwyth ar 13 Hydref., a chytunodd y Cadeirydd a Kari Walker i'w fynychu. Roedd Ceredigion am symud tuag at drefn o anfon copïau o geisiadau cynllunio i'r cynghorau cymuned yn electronaidd. Penderfynwyd eu hysbysu nad oedd hyn yn ymarferol i Gyngor Trefeurig ar hyn o bryd gan nad oedd y derbyniad band llydan yn ardal y Clerc yn ddigonol i'r pwrpas.

Adroddwyd fod y ceisiadau cynllunio canlynol wedi'u caniatáu: Dolwen Penrhyn-coch — addasu to'r garej; Y Gelli, Penrhyn-coch, amrywio amod cynllunio; y tir ger Cwm Pennant, Penrhyn — codi tŷ; 2 Llwynprysg, Penrhyn — estyniad. Ystyriwyd y cais am drin Allt Fadog yn dilyn y tân a gafwyd yno, ac roedd y Cyngor yn gwbl gefnogol iddo. Ceir y cofnodion yn llawn ar www.trefeurig.org.

C.FF.I. CEREDIGION
www.yfc-ceredigion.org.uk

## Adroddiad Ffermwyr Ifainc Ceredigion

**Beicio Noddedig**
Yn ystod penwythnos olaf mis Awst, bu daniel Downes, Cadeirydd y Sir, Arwel Jones, Is-gadeirydd y Sir ac Emyr Evans, Ffermwr Ifanc y Sir yn beicio 150 o filltiroedd wrth fynd o glwb i glwb er mwyn codi arian tuag at Sioe'r Cardis 2010. Dechreuwyd eu taith yn Nhalybont a chawsant gwmni rhai o aelodau'r Sir ar hyd eu taith cyn gorffen yng Nghlwb Rygbi Aberaeron.

**Cystadlu'n Genedlaethol**
Llongyfarchiadau mawr i Menna Davies o glwb Dihewyd a ddaeth yn ail fel Stockmon Hyn yn Stoneleigh yn ddiweddar.

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol CFfI Cymru**
Mynychodd nifer o aelodau'r Sir CCB Cymru a gynhaliwyd eleni yn Ninbych y Pysgod. Cafwyd penwythnos llawn hwyl. Llongyfarchiadau i Enfys Evans, Llanddeiniol ar gael ei hethol yn Is-gadeirydd y mudiad yng Nghymru.

**Clwb 200**

*Mis Awst*
Alan Morgan, Llwynbedw, Falcondale Drive, Llambed
Gareth a Mary Davies, Maesglas, Drefach, Llanybydder
Mary Davies, Llys yr Haul, Heol y Dwr, Llanon

*Mis Medi*
C. Ff.I. Talybont
C.Ff.I. Llanwenog
C.Ff.I. Pontsian

**Blaenrhybudd o Ddigwyddiadau'r Sir**
1-2 Hydref - Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg, Theatr Felin-fach
14 Hydref - Hyfforddiant Barnu Stoc
29 a 31 Hydref - Eisteddfod y Sir, Prifysgol Llambed
9 Tachwedd - Cwis Iau'r Sir
16 Tachwedd - Hyfforddiant Barnu Carcas
26 Tachwedd - Cwis y Sir

# YSGOL RHYDYPENNAU

## Etholiadau

Bellach mae'r ysgol wedi cadarnhau, trwy bleidlais aelodau dau bwyllgor pwysig iawn; 'Y Cyngor Ysgol' a'r 'Pwyllgor Eco'. Mae aelodau'r ddau gyngor yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn gwneud penderfyniadau pwysig a sicrhau llais swyddogol i weddill y disgyblion mewn amryw o agweddau ym mywyd yr ysgol.

## Clwb Dawnsio

Mae Bethan Jenkins a Mari Wyn Lewis, cyn ddisgyblion yr ysgol, yn cynnig sesiynau dawns i blant yr ysgol. Mae'r sesiynau wythnosol yn cael eu cynnal ar ddydd Llun am hanner awr wedi tri. Mae'r plant yn mwynhau'r sesiynau yn fawr iawn.

## Celf

Yn ddiweddar treuliodd Blwyddyn 6 b'nawn cyfan dan ofal Mrs Helen Jones yn Y Llyfrgell Genedlaethol. Pwrpas yr ymweliadau oedd mwynhau arddangosfa gelf gan yr artist lleol Stuart Evans. Er mwyn cwblhau y broses, ymwelodd yr artist â'r ysgol er mwyn gosod tasgau celf i'r plant a chynnig cymorth amhrisadwy iddynt sut i ddatblygu eu sgiliau yn y maes. Hoffai'r ysgol ddiolch i Stuart Evans am ei gefnogaeth.

## Ymweliad

Ar y 15ed o Fedi fe ddaeth Y Brodyr Gregory i'r ysgol er mwyn hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth y plant o reolau'r ffordd fawr. Cafwyd p'nawn llawn canu, actio a llwyth o hwyl a sbri.

## Chwaraeon

Mae tîmau pêl-droed a phêl-rwyd yr ysgol yn parhau i chwarae ar brynhawniau Gwener mewn cystadleuaeth swyddogol sydd wedi ei threfnu rhwng ysgolion y cylch. Tro Ysgol Llwyn yr Eos oedd hi i ymweld â'r ysgol yn ddiweddar. Dyma'r canlyniadau:

**Pêl droed**:
Rhydypennau A — 2 (Siôn Ewart 2); Llwyn yr Eos A — 0
Rhydypennau B — 8 (Trystan Griffiths 3, Shaun Jones 3, Cameron Saunders, Jack Keegan) Llwyn yr Eos B — 0

**Pêl rwyd**:
Rhydypennau A — 12; Llwyn yr Eos A — 0
Rhydypennau B — 4; Llwyn yr Eos A — 0

**Hoci**
Mae'r tîm hoci yn parhau i chwarae ar Nos Wener, ac y maent wedi cael dechreuad da i'r tymor. Dyma'r canlyniadau:
Rhydypennau A — 3 (Rhys Huw 3) Ysgol Plas-crug A-3
Rhydypennau B-8 (Sion Manley 6, Cameron Saunders 2); Ysgol Plas-crug B-0.

## Trawsgwlad

Cynhaliwyd Trawsgwlad Cylch Aberystwyth ar Ddydd Gwener Hydref yr 2il ar gaeau'r Ficerdy. Cynrychiolwyd yr ysgol gan 51 o blant blynyddoedd 3 i 6. Llwyddodd pob un ohonynt i gyflawni'r cwrs a chafwyd perfformiadau arbennig gan y canlynol gan iddynt orffen yn y deg cyntaf.

Catrin Manley bl 3 (7ed); Sophie Evans bl 3 (8ed); Megan Mason bl 5 (3ydd); Joshua Erskine bl 5 (5ed); Ffion Evans bl 6 (1af); Lydia Garrod bl 6 (10ed); Siôn Ewart bl 6 (4ydd). Mi fyddant nawr yn rhedeg yn erbyn y goreuon o Geredigion i lawr yng ngwersyll Llangrannog fis Mai nesaf. Pob hwyl iddynt!

## Adran yr Urdd

Mae Adran yr Urdd wedi ail ddechrau bellach. Treuliwyd y noson gyntaf yn mwynhau sesiwn dan ofal y Prifathro a'r Dirprwy. Mi fydd y gweithgareddau difyr yn parhau yn ystod gweddill y flwyddyn.

## Noson Gymdeithasol

Ar y 4ydd o Dachwedd am 6:30 y.p. nes 8:00 y.h, mi fydd noson arbennig yn cael ei chynnal yn yr ysgol. Pwrpas y noson yw rhoi cyfle i'r rhieni a thrigolion yr ardal i ymweld â'r estyniad newydd a chael coffi a chlonc gymdeithasol. Croeso i bawb. Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk


Y Cyngor Ysgol



Y Pwyllgor Eco



Mwynhau adloniant Y Brodyr Gregory

ytincer@googlemail.com

RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

MORRIS & READ
PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH TRWSIO . TIWNIO M.O.T. a.y.b
Ar agor
8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
9a.m. - 1p.m. Sadwrn
GAREJ CWRT PENRHYN-COCH ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth 820 090

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

# YSGOL CRAIG YR WYLFA

### Clwb Rhedeg 30,40,50

Yn ddiweddar daeth Bryn Evans, Swyddog Pobl Ifanc Egniol Ceredigion Actif, i'r ysgol i sefydlu'r Clwb 30,40,50. Clwb rhedeg ysgol yw'r clwb ,gyda'r nod o godi lefelau ffitrwydd personol disgyblion . Bu Bryn a disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn mesur y trac o gwmpas yr ysgol gan hefyd weithio allan y byddai angen iddynt redeg chwe gwaith o gwmpas yr ysgol er mwyn rhedeg milltir. Creuwyd arwyddion ac yna, cyflwynwyd pasport unigol i bob disgybl i gofnodi eu hymdrechion. Ein nod yw annog y disgyblion i redeg milltir neu ddwy yr wythnos gan fawr obeithio y byddant yn llwyddo i ennill tystysgrif am redeg 30 millt ir cyn y Pasg. Pwy a ŵyr efallai y byddant hwy a'r staff yn llwyddo i gyrraedd y nod o redeg 50 milltir!

### Dysgu am Ffermio a Chynnyrch Organig

Yn ddiweddar bu Rachel Rowlands o Fferm Brynllys yn ymweld a'r ysgol. Cafwyd cyflwyniad diddorol am ffermio organig ac am hanes cychwyn Rachel's Organic. Cafodd y disgyblion gyfle i flasu ychydig o'r cynnyrch gan hefyd dderbyn nifer o nwyddau trwy garedigrwydd y cwmni.

Roedd yr ymweliad yn rhan o astudiaethau'r disgyblion o Fwyd a Ffermio, sef eu thema y tymor hyn.

### Ymweliad â'r Cigydd

Yn ddiweddar bu disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn ymweld â'r Cigydd Lleol yn y Borth. Yno cawsant gyfle i holi cwestiynau am y gwahanol fathau o doriadau cig a'r dulliau o storio a chyflwyno. Diolch i Mr Peter George am ei gefnogaeth.

### Sioe Aled Ail- gylchu

Bu'r Brodyr Gregory ac Aled ail-gylchu yn yr ysgol yn dysgu'r disgyblion am ddiogelwch y ffordd a hefyd pwysigtrwydd ail-gylchu. Cafwyd cyflwyniad bywiog iawn gan y Brodyr Gregory ac roedd y disgyblion wrth eu bodd . Noddwyd y Sioe gan Gyngor Ceredigion.

### Dathlu Pythefnos Fwyd Prydeinig

Bu'r disgyblion yn dathlu'r achlysur gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6 yr ysgol yn paratoi cinio ysgol iddynt hwy ar staff. O dan arweiniad Mrs Wendy Jones y gogyddes paratowyd taten bôb, salad a pitsa- cinio iach a blasus iawn! Roedd y disgyblion wrth eu bodd, ac roedd nifer ohonynt yn awyddus i goginio cinio'n rheolaidd. Bu'r achlysur yn brofiad gwerth chweil i bawb.

### Ysgol Feithrin Craig yr Wylfa

Croeso i'r disgyblion newydd i'r Ysgol Feithrin sydd wedi ei lleoli yn y caban ar safle'r ysgol. Braf iawn yw croesawu'r disgyblion i'r ysgol.

### Casgliad Nwyddau Oxfam

Mae'r Ysgol yn cefnogi ymgyrch Oxfam i ail-gylchu nwyddau. Bydd Oxfam yn talu'r ysgol wrth y dunnell am hen ddillad, bric a brac a llyfrau, a bydd gwerthiant yr eitemau yn noddi gwaith Oxfam ar draws y byd sy'n datblygu. Bydd y cynllun yn derbyn nwyddau - dillad glân ac ategolion (ee: esgidiau, bagiau, beltiau), Llyfrau, CDs neu DVDs, Bric a brac cyffredinol. (DIM nwyddau trydanol neu nwyddau sy'n hawdd i'w torri) Dydd Mawrth 20 Hydref bydd nwyddau yn cael eu casglu o'r ysgol. Os oes gennych nwyddau di-angen yna dewch â nhw i'r ysgol.

### Chwaraeon

Bu disgyblion yr Adran Iau yn chwarae gêm gyfeillgar o bêl droed a phêl rwyd yn erbyn Ysgol Penrhyn-coch yn ddiweddar. Braf oedd croesawu'r disgyblion i Ysgol Craig yr Wylfa a gweld y disgyblion yn cyd- chwarae ac yn cymdeithasu'n dda gyda'i gilydd. Enillodd y tîm pêl rwyd 8- 0 gyda'r gêm bêl droed yn gorffen yn gyfartal gyda sgôr o 2-2.

Cafwyd bisged a diod ar ddiwedd y prynhawn. Edrychwn ymlaen i gael dychwelyd i chwarae unwaith yn rhagor ym Mhenrhyn-coch.

### Gweithdy Madfall yn Ynys-las

Braf iawen oedd cael gwahoddiad gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru i gymryd rhan mewn gweithdy ar Fadfall y tywod yn Ynys-las. Yn ystod y gweithdy cafwyd cyfle i weld a dysgu am fadfall y tywod yn ogystal â'r madfall cyffredin. Bu'r disgyblion allan yn archwilio'r twynni tywod ac yn darganfod ardaloedd addas i'r madfall ymgartrefu ynddynt. Mawr obeithiwn y byddwn yn gweld y madfall yn bola heulo ar y twynni tywod y flwyddyn nesaf.

# YSGOL PEN-LLWYN

Bu plant yr ysgol yn arddangos eu gwaith yn Sioe Capel Bangor. Llongyfarchiadau i bawb oedd wedi gwneud y gwaith a rhai a fu'n llwyddiannus.

### Canlyniadau Sioe Capel Bangor

Dosbarth 1 —
Addurno plât
1af Haf Evans
2ail Nuala Ellis Jones
3ydd Alaw Evans

Potiau blodau
1af Alaw Evans
2ail Jack Barron
3ydd Laura Jones Williams

Blodau Haul — Blwyddyn 2
1af Jack Barron
2ail Haf Evans
3ydd Alaw Evans

Dosbarth 2
Y Ceiliog — Blwyddyn 3 a 4
1af Rebecca Jones Williams
2ail Lauren White
3ydd Gethin ap Dafydd

Y Ceiliog — Blwyddyn 5 a 6
1af Bethany Thompson
2ail Oliver Herschel
3ydd Gerallt Williams

Gweadwaith coed — Blwyddyn 3 a 4
1af Keiran Evans
2ail Manon Davies
3ydd Alison Keegan

Gweadwaith coed — Blwyddyn 5 a 6
1af Oliver Herschel
2ail Dylan Williams
3ydd Gerallt Williams

Modelau o anifeiliaid — Blwyddyn 3 a 4
1af Jo Jones
2ail Gethin ap Dafydd
3ydd Iestyn Watson

Modelau o anifeiliaid — Blwyddyn 5 a 6
1af Tomos Nicholls
2ail Amy Dryburgh
Cyd. 3ydd Oliver Herschel a Bethany Thompson

### Ymweliad

Daeth Mr Tony Cope o Gwmni Scottish Power i siarad â'r plant am 'Ddiogelwch Trydanol'. Roedd yn brofiad ymarferol buddiol iawn a chafwyd bore pen i gamp.

Pêl-droed — Cystadleuaeth Pump bob ochr

Llongyfarchiadau i'r tîm pêl-droed fu'n cystadlu yn ddiweddar. Cafodd y plant fore'n llawn hwyl ac fe wnaethon eu gorau er na fu iddynt ennill.

### Yr Urdd

Bu Mrs Linda Jones a Mrs Llinos Evans yn yr ysgol yn gwerthu adnoddau'r Urdd. Diolch i'r plant am gefnogi mor dda.

### Trawsgwlad yr Urdd

Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran ymhob ras. Bu tri o fechgyn Blwyddyn 5 yn llwyddiannus ac yn cael mynd ymlaen i'r cam nesaf. Tomos Evans ddaeth yn ail, Keiran Evans a ddaeth yn drydydd a Jo Jones yn ddegfed. Da iawn chi!



# TASG Y TINCER



Llywelyn Bowen Jones

Ydech chi'n hoffi'r hydref? Er nad yw'r tywydd mor gynnes, ac er ei bod yn nosi'n gynt, rwy'n hoff iawn o'r mis hwn, gyda lliwiau'r dail yn troi, ac rwy'n hoffi gwisgo dillad cynnes a wellies a bod allan yn yr awyr iach! Ydech chi'n hoffi crensian y dail o dan eich traed wrth fynd am dro? Mae cnau i'w gweld ar y coed, a medrwch weld wiwerod yn neidio o un gangen i'r llall yn hel eu bwyd cyn y gaeaf os wnewch chi sbio'n ofalus.

Diolch i bawb fu'n lliwio'r llun o'r anghenfil mawr yn y dwr. Rwy'n siwr mai anifail tebyg yw Tegi, yn Llyn Tegid! Dyma pwy fuodd yn brysur:

Ceri Ann Garrett, 12 Y Ddôl Fach, Penrhyn-coch; Teleri a Glesni Morgan, Ger-y-nant, Dolau; Steffan Huxtable, Darlyn, 19 y Ddôl Fach, Penrhyn-coch; Rhys Tanat Morgan, Fferm Glanfred, Llandre; Llywelyn Bowen Jones, 11 Bryncastell, Bow Street; Sion a Rhys James, 25 Dôl Helyg, Penrhyn-coch; Elan Mair Griffiths, 9 Rhydygarreg, Y Borth; Steffan Lewis, Glanrheidol Cottage, Capel Bangor.

Ti Llywelyn sy'n ennill y tro hwn, a hynny am y tro cyntaf rwy'n meddwl. Llongyfarchiadau mawr!

Diolch arbennig i Daniel Rees, Brysgaga, Bow Street a Garan Thomas, Caerdydd am eich lluniau lliwgar o'r ffarmwr a'r ceffylau a gyrhaeddodd yn rhy hwyr i'w roi yn Y Tincer fis Medi, ond roedd yn grêt i'w derbyn!

Pa ddigwyddiad enwog oedd yn 40 mlwydd oed dros yr haf?

Dyna chi, mae'n 40 mlynedd ers i ddyn lanio ar y lleuad! Ydech chi'n cofio'r dyddiad? 21 Gorffennaf 1969! Beth oedd enw'r dyn? Ie, Neil Armstrong, ac Apollo 11 oedd enw'r llong ofod. A beth am eiriau cyntaf enwog Armstrong? "That's one small step for man, one giant leap for mankind." Meddyliwch sut oedd e'n teimlo yn camu o'r llong? Ydech chi'n medru copio'r ffordd roedd e'n cerdded, gyda'r camau mawr? Ers hynny mae sawl person o sawl gwlad wedi glanio ar y lleuad, ac ar ddiwedd mis Medi eleni daeth y newyddion cyffrous fod gofodwyr o'r India wedi darganfod dwr ar y lleuad. Mae'n nhw'n dweud y gallai hyn olygu y gallai pobl fyw ar y lleuad, a hynny o fewn yr 20 mlynedd nesaf! Beth am ddychmygu eich bod yn byw ar y lleuad?

Y mis hwn, rwyf am i chi liwio llun y gofodwr yn mentro allan o'r llong i dywyllwch y gofod? Anfonwch eich gwaith ata'i i'r cyfeiriad arferol (46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion SY24 5DE) erbyn 1 Tachwedd Ta ta tan toc.



Enw

Cyfeiriad

Oed Rhif ffôn

M. Thomas
Plymwr lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymwr
Prisiau rhesymol
Ffôn symudol 07968 728 470
Ffôn ty 01970 820375

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau,cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

GOLCHDY MAES-Y-MÔR
Stryd y Baddon, Aberystwyth
Ar agor 7 diwrnod
8 y bore - 9 yr hwyr
Golchdy derbyn arian
Peiriant golchi mawr
(duvets £3)
Gwasanaeth glanhau duvets plu neu ffibr - yr un diwrnod
Gwasanaeth golchi blancedi, llenni a.y.y.b.
Siop lanhau dillad
Digon o le parcio
FFÔN 639270

ISSN 0963-925X
Rhif 322 | HYDREF 2009